| NTW2 | Dyma ganran y bobl sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol neu drwy'r gadwyn gyflenwi o ganlyniad i'ch gofynion caffael ar y contract sy'n byw yn yr ardal leol, y tu hwnt i gyfanswm nifer y bobl a gyflogir ar y contract. Cyfeiriwch at y diffiniad o ardal leol a ddarparwyd uchod ar gyfer NTW1. | Nodwch gyfanswm nifer y bobl a gyflogir ar y contract hwn. O'r rhain, beth yw cyfanswm nifer y bobl leol a gyflogir ar y contract hwn? Os na wnaethoch ar gyfer NTW1, NTW1b neu NTW1c, crynhowch eich strategaeth ar gyfer cyflogi'ch nifer targed o bobl leol ar y contract hwn. Er enghraifft, os ydych chi'n bwriadu hysbysebu mewn papurau newyddion lleol, esboniwch pa rai a pha mor rheolaidd. Neu, os byddwch chi'n cydweithredu â chanolfannau gwaith lleol, nodwch pa rai a sut y byddwch yn mynd ati i ymwneud â nhw. | Nodwch gyfanswm nifer y bobl a gyflogir ar y contract hwn a chyfanswm nifer y bobl leol a gyflogir ar y contract hwn. Dylai'r wybodaeth a ddarperir gydymffurfio â gofynion diogelu data (y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)). | Nifer y trigolion lleol a gyflogir (yn uniongyrchol a thrwy'r gadwyn gyflenwi o ganlyniad i'ch gofynion caffael) y tu hwnt i gyfanswm nifer y gweithwyr ar y contract - (%) |
| NTW3 | Dyma lefel boddhad gweithwyr uniongyrchol a gweithwyr yn y gadwyn gyflenwi sydd wedi'u cyflogi neu'u cadw ar y contract â'u hamodau gweithio, wedi'i mesur trwy ymgysylltu â gweithwyr. Gellid mesur hyn trwy holiadur. Gellid defnyddio Graddfa Likert (e.e. 0= ddim yn cytuno o gwbl i 5 = cytuno'n llwyr) i ofyn i weithwyr a ydynt yn cytuno bod eu hamodau gweithio yn gysylltiedig â'u contract yn "dda" ac yn "deg". Gellir defnyddio dulliau tebyg eraill hefyd. Mae'r mesur hwn yn dal boddhad gweithwyr ag amodau gweithio'n gysylltiedig â'r contract.<br><br>Mae CIPD yn cynnal arolwg cynhwysfawr, da, o waith yn rheolaidd ar draws sectorau gwahanol yn economi'r DU. Gellir mynd at yr arolwg hwn a'r adnoddau a'r fethodoleg gysylltiedig trwy'r dolenni canlynol a gallant helpu i gael dealltwriaeth well o ddiben a strwythur arolwg seiliedig ar arfer da o weithwyr: https://www.cipd.co.uk/knowledge/work/trends/goodwork#40068; https://www.cipd.co.uk/Images/good-work-index-appendix-2-methodology-2-2020_tcm18-79213.pdf. Gallwch gael gwybodaeth ychwanegol trwy Ganllawiau'r Workforce Disclosure Project i Arolygon, trwy'r ddolen ganlynol: https://shareaction.org/wp-content/uploads/2018/07/WDI_Survey_Guidance_2018.pdf | Nodwch y dull rydych chi'n bwriadu'i ddefnyddio i ymgysylltu â'ch gweithwyr uniongyrchol a'r gweithwyr yn y gadwyn gyflenwi ar y contract i asesu sut maent yn dosbarthu'u hamodau gweithio. Dylech ddarparu gwybodaeth am sut y byddwch yn ymgysylltu â gweithwyr (e.e. trwy ddosbarthu arolwg byr, dienw) a sut y byddwch yn sicrhau bod y data a gesglir yn cael gwybod am foddhad gweithwyr yn deg ac yn ddiduedd (e.e. trwy orfodi pob gweithiwr sy'n gysylltiedig â'r contract i lenwi'r arolwg a sicrhau anhysbysrwydd). | Nodwch y dull a ddefnyddioch i ymgysylltu â'ch gweithwyr uniongyrchol a'r gweithwyr yn y gadwyn gyflenwi ar y contract i asesu sut maent yn dosbarthu'u hamodau gweithio. Dylech ddarparu gwybodaeth am sut y gwnaethoch ymgysylltu â gweithwyr (e.e. trwy ddosbarthu arolwg byr, dienw) a sut y sicrhaoch fod y data a gasglwyd yn cael gwybod am foddhad gweithwyr yn deg ac yn ddiduedd (e.e. trwy orfodi pob gweithiwr sy'n gysylltiedig â'r contract i lenwi'r arolwg a sicrhau anhysbysrwydd). Hefyd, darparwch ddata o ganlyniadau'r arolwg mewn fformat wedi'i brosesu a heb ei brosesu (e.e. taenlen excel). | Dylai'r gwerth % a roddir ar gyfer y mesur hwn ddal y lefel cytundeb cyfartalog â chwestiwn sy'n asesu a yw gweithwyr yn fodlon â'u gwaith a'u hamodau gweithio. Os defnyddir dull yr enghraifft isod, byddai hyn yn golygu'r canlynol:<br>Defnyddir Graddfa Likert o 0-5 i asesu pa mor fodlon yw gweithwyr â'r amodau gweithio sy'n gysylltiedig â'u contract. Dyma gwestiwn enghreifftiol: "A ydych chi'n cytuno â'r datganiad bod yr amodau gweithio ar y contract hwn yn dda ac yn deg i bob gweithiwr?" 0 = ddim yn cytuno o gwbl, 3 = dim barn, 5 = cytuno'n llwyr. Dylai gwerth pob ateb a roddir gan bob gweithiwr uniongyrchol a gweithwyr yn y gadwyn gyflenwi ar y contract gael eu crynhoi a dylid rhannu'r gwerth â nifer y gweithwyr a gymerodd ran. Yna, mae'n rhaid rhannu'r sgôr gyfartalog hon â'r sgôr uchaf posibl (5 yn yr achos hwn) a'i lluosi â 100 i roi'r sgôr gyfanredol gyfartalog rhwng 0% a 100% ar gyfer boddhad gweithwyr ar y contract hwn â'u swydd. |
| NTW4 | Dyma weithredu a hwyluso agweddau ar Safon Gwaith Teg Cymru a oedd yn gysylltiedig â gwaith "da" a "theg" gweithwyr ar y contract. Mae Safon Gwaith Teg Cymru'n amlinellu canllawiau ar yr hyn y dylid ei ystyried yn waith teg a sut y gellir ei hwyluso. | Crynhowch sut rydych chi'n bwriadu adlewyrchu a hwyluso arferion cyflogaeth dan arweiniad syniadau gwaith "teg" a amlinellir yn Safon Gwaith Teg Cymru yn y contract. Mae hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth am unrhyw sefydliadau yr hoffech lunio partneriaeth nhw efallai, ynghyd â darparu tystiolaeth o'r ffordd y mae disgwyl i'r arferion gwaith "teg" a ddymunir gael eu hintegreiddio i'r gweithrediadau perthnasol sy'n gysylltiedig â'r contract a sut y byddant yn effeithio ar y gweithlu ar y contract. | Crynhowch sut y strwythuroch arferion cyflogaeth dan arweiniad syniadau gwaith "teg" a amlinellir yn Safon Gwaith Teg Cymru yn y contract. Mae hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth am unrhyw sefydliadau yr hoffech bartneru â nhw efallai, ynghyd â darparu tystiolaeth o'r ffordd y cafodd arferion gwaith "teg" eu hintegreiddio i'r gweithrediadau perthnasol sy'n gysylltiedig â'r contract a sut yr effeithiont ar y gweithlu ar y contract. | Darparwch ddogfennau perthnasol |
| NTW6 | Dyma nifer yr oriau staff sydd wedi'u neilltuo i baratoi a chyflwyno gweithgareddau'n gysylltiedig â'r cwricwlwm, gan gynnwys cymorth llythrennedd, sgyrsiau gyrfaol, sgyrsiau diogelwch ac ati. Mae pynciau enghreifftiol yn cynnwys STEM, gofal cymdeithasol a'r gwyddorau cymdeithasol. Darparwch ddisgrifiad o amrywiaeth y gweithgareddau a ddarperir. | Crynhowch eich cynllun gwaith ar gyfer cyflwyno'ch nifer targed o ymweliadau ac ysgolion a cholegau lleol. Darparwch ddadansoddiad o nifer yr oriau staff a dreulir ar bob ymweliad (paratoi a chyflwyno). Er enghraifft, os bydd 10 aelod staff yn treulio 3 awr yr un, 30 fydd cyfanswm nifer yr oriau rydych chi'n eu cofnodi. | Darparwch enwau'r ysgolion/colegau yr ymweloch â nhw a dadansoddiad o nifer yr oriau staff a dreuliwyd ar bob ymweliad (gan gynnwys amser a dreuliwyd yn paratoi ac yna'n cyflwyno'r sesiwn). Er enghraifft, os bydd 10 aelod staff wedi treulio 3 awr yr un ar ymweliad, 30 fydd cyfanswm nifer yr oriau ddylai gael eu cofnodi. Disgrifiwch yr ymweliadau a'r gweithgareddau a gyflwynwyd a darparwch unrhyw wybodaeth ategol e.e. cadarnhad gan yr ysgol/coleg ar ôl yr ymweliad. Dylai'r wybodaeth a ddarperir | Enghraifft: os bydd 10 aelod staff wedi treulio 3 awr yr un, 30 fydd cyfanswm nifer yr oriau ddylai gael eu cofnodi. Mae 37 awr yn cyfateb i 1 wythnos. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | gydymffurfio â gofynion diogelu data (y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)). | |
| NTW7 | Dim ond cyfleoedd hyfforddi galwedigaethol sy'n cael eu cefnogi hyd nes eu cwblhau ddylai gael eu cyfrif, hyd yn oed pan fyddant yn cael eu cwblhau ar ôl diwedd y contract. I gael disgrifiad o lefelau'r cymwysterau gweler: https://www.gov.uk/what-different-qualification-levels-mean/overview. I ddod o hyd i gymhwyster cofrestredig, gweler: https://gov.wales/credit-and-qualifications-framework-cqfw. I gael rhagor o wybodaeth am gymwysterau yng Nghymru, gweler: https://gov.wales/qualifications Mae'r procsi gwerth cymdeithasol yn briodol i gyfleoedd ar gyfer gweithwyr newydd, nid gweithwyr presennol. | Crynhowch eich strategaeth ar gyfer darparu'ch nifer targed o wythnosau o hyfforddiant ar gyfer cymwysterau galwedigaethol ar y contract hwn, gan gynnwys manylion am sut byddwch chi'n cefnogi cwblhau'r cymwysterau. Os yw'n bosibl, darparwch fanylion y darparwr hyfforddiant achrededig, y math o ganlyniadau a lefel y canlyniadau i'w cyflawni, ynghyd â'r cymhwyster dilynol. | Nodwch nifer y bobl sy'n cael hyfforddiant cymwysterau galwedigaethol ar y contract hwn a nifer yr wythnosau o hyfforddiant y pen. Darparwch fanylion y darparwr hyfforddiant achrededig, y math o ganlyniadau a lefel y canlyniadau i'w cyflawni, ynghyd â'r cymhwyster hyfforddi dilynol. Dylai'r wybodaeth a ddarperir gydymffurfio â gofynion diogelu data (y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)). | Cofnodwch wythnosau o hyfforddiant cymwysterau galwedigaethol a ddarparwyd ar y contract, hyd yn oed pan gefnogir y cyfle y tu hwnt i gyfnod y contract, ar yr amod ag y byddwch yn ei gefnogi hyd nes caiff ei gwblhau. |
| NTW8 | Dim ond prentisiaethau sy'n cael eu cefnogi hyd nes eu cwblhau ddylai gael eu cyfrif, hyd yn oed pan fyddant yn cael eu cwblhau ar ôl diwedd y contract. I gael disgrifiad o lefelau'r cymwysterau gweler: https://www.gov.uk/what-different-qualification-levels-mean/overview. I ddod o hyd i gymhwyster cofrestredig, gweler: https://gov.wales/credit-and-qualifications-framework-cqfw. I gael rhagor o wybodaeth am gymwysterau yng Nghymru, gweler: https://gov.wales/qualifications. Mae'r procsi gwerth cymdeithasol yn briodol i gyfleoedd ar gyfer gweithwyr newydd, nid gweithwyr presennol. | Crynhowch eich strategaeth ar gyfer darparu'ch nifer targed o wythnosau prentisiaeth ar y contract hwn, gan gynnwys manylion am sut byddwch chi'n cefnogi cwblhau'r prentisiaethau. Os yw'n bosibl, darparwch fanylion y darparwr hyfforddiant achrededig, y math o brentisiaethau a lefel y prentisiaethau i'w cyflawni, ynghyd â'r cymhwyster dilynol. | Nodwch nifer y bobl sy'n dilyn prentisiaethau ar y contract hwn a nifer yr wythnosau prentisiaeth y pen. Darparwch fanylion y darparwr hyfforddiant achrededig, y math o brentisiaeth a lefel y brentisiaeth a gyflawnwyd, ynghyd â'r cymhwyster dilynol. Dylai'r wybodaeth a ddarperir gydymffurfio â gofynion diogelu data (y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)). | Cofnodwch wythnosau o hyfforddiant ar gyfer y brentisiaeth a ddarparwyd ar y contract, hyd yn oed pan gefnogir y cyfle y tu hwnt i gyfnod y contract, ar yr amod ag y byddwch yn ei gefnogi hyd nes caiff ei gwblhau. |
| NTW9 | Dim ond cyfleoedd hyfforddi galwedigaethol sy'n rhan o raglen gwella sgiliau gynhwysfawr sy'n gysylltiedig â chontract ac sy'n cael eu cefnogi hyd nes eu cwblhau ddylai gael eu cyfrif, hyd yn oed pan fyddant yn cael eu cwblhau ar ôl diwedd y contract. I gael disgrifiad o lefelau'r cymwysterau gweler: https://www.gov.uk/what-different-qualification-levels-mean/overview. I ddod o hyd i gymhwyster cofrestredig, gweler: https://gov.wales/credit-and-qualifications-framework-cqfw. I gael rhagor o wybodaeth am gymwysterau yng Nghymru, gweler: https://gov.wales/qualifications. | Crynhowch eich strategaeth ar gyfer darparu'ch nifer targed o wythnosau o hyfforddiant yn gysylltiedig â gwella sgiliau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol ar y contract hwn, gan gynnwys manylion am sut byddwch chi'n cefnogi cwblhau'r cymwysterau. Os yw'n bosibl, darparwch fanylion y darparwr hyfforddiant achrededig, y math o ganlyniadau a lefel y canlyniadau i'w cyflawni, ynghyd â'r cymhwyster dilynol. | Nodwch nifer y bobl sy'n cael hyfforddiant cymhwyster galwedigaethol sy'n gysylltiedig â gwella sgiliau ar y contract hwn a nifer yr wythnosau o hyfforddiant y pen. Darparwch fanylion y darparwr hyfforddiant achrededig, y math o ganlyniadau a lefel y canlyniadau a gyflawnwyd, ynghyd â'r cymhwyster hyfforddi dilynol. Dylai'r wybodaeth a ddarperir gydymffurfio â gofynion diogelu data (y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)). | Cofnodwch gyfanswm nifer yr wythnosau o hyfforddiant cymhwyster galwedigaethol sy'n gysylltiedig â gwella sgiliau a ddarparwyd ar y contract, hyd yn oed pan gefnogir y cyfle y tu hwnt i gyfnod y contract, ar yr amod ag y byddwch yn ei gefnogi hyd nes caiff ei gwblhau. Dylai hyn gynnwys hyfforddiant a ddarperir fel rhan o raglenni gwella sgiliau cynhwysfawr yn unig. |
| NTW10 | Dim ond prentisiaethau sy'n rhan o raglen gwella sgiliau gynhwysfawr sy'n gysylltiedig â chontract ac sy'n cael eu cefnogi hyd nes eu cwblhau ddylai gael eu cyfrif, hyd yn oed pan fyddant yn cael eu cwblhau ar ôl diwedd y contract. I gael disgrifiad o lefelau'r cymwysterau gweler: https://www.gov.uk/what-different-qualification-levels-mean/overview. I ddod o hyd i gymhwyster cofrestredig, gweler: https://gov.wales/credit-and-qualifications-framework-cqfw. I gael rhagor o wybodaeth am gymwysterau yng Nghymru, gweler: https://gov.wales/qualifications. | Crynhowch eich strategaeth ar gyfer darparu'ch nifer targed o wythnosau prentisiaeth sy'n gysylltiedig â gwella sgiliau ar y contract hwn, gan gynnwys manylion am sut byddwch chi'n cefnogi cwblhau'r prentisiaethau. Os yw'n bosibl, darparwch fanylion y darparwr hyfforddiant achrededig, y math o brentisiaethau a lefel y prentisiaethau i'w cyflawni, ynghyd â'r cymhwyster dilynol. | Nodwch nifer y bobl sy'n dilyn prentisiaethau sy'n gysylltiedig â gwella sgiliau ar y contract hwn a nifer yr wythnosau prentisiaeth y pen. Darparwch fanylion y darparwr hyfforddiant achrededig, y math o brentisiaeth a lefel y brentisiaeth a gyflawnwyd, ynghyd â'r cymhwyster dilynol. Dylai'r wybodaeth a ddarperir gydymffurfio â gofynion diogelu data (y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)). | Cofnodwch gyfanswm nifer yr wythnosau o hyfforddiant yn gysylltiedig â gwella sgiliau ar gyfer prentisiaethau a ddarparwyd ar y contract, hyd yn oed pan gefnogir y cyfle y tu hwnt i gyfnod y contract, ar yr amod ag y byddwch yn ei gefnogi hyd nes caiff ei gwblhau. Dylai hyn gynnwys hyfforddiant a ddarperir fel rhan o raglenni gwella sgiliau cynhwysfawr yn unig. |
| NTW13 | Dyma amser staff arbenigol (e.e. cyngor ariannol / cyngor cyfreithiol / cyngor ar AD / Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch) sydd wedi'i neilltuo i gefnogi busnesau micro, bach a chanolig (BMBaCh). Dylech gynnwys dim ond y gwirfoddoli y mae staff wedi'i ddarparu yn ystod oriau gwaith neu wrth wneud goramser â thâl, neu a gyflwynwyd o ganlyniad uniongyrchol i weithgaredd a drefnwyd gan y sefydliad ac y cytunodd y gweithwyr iddo. Gweler canllaw'r pecyn cymorth am enghreifftiau wedi'u cyfrifo ar gyfer priodoli. Nodwch y diffiniad o BMBaCh (0-250 o weithwyr) | Crynhowch eich strategaeth ar gyfer darparu cyngor arbenigol i fusnesau micro, bach a chanolig (BMBaCh). Darparwch enwau'r BMBaCh y byddwch yn eu cefnogi, neu amrywiaeth o opsiynau. Disgrifiwch nifer yr oriau staff sydd i'w treulio yn gyfan gwbl ac ar gyfer pob BMBaCh. Nodwch y math o gyngor arbenigol a ddarperir, gan gynnwys y math o gymhwyster/rôl y sawl sy'n cyflwyno'r cyngor hwn. | Darparwch ddadansoddiad o'r oriau staff a dreuliwyd yn darparu cyngor arbenigol i fusnesau micro, bach a chanolig (BMBaCh). Darparwch fanylion y BMBaCh a gefnogoch. Nodwch nifer yr oriau staff a dreuliwyd ar gyfer pob BMBaCh, y math o gyngor arbenigol a roddwyd, ynghyd â chymhwyster/rôl y sawl sy'n cyflwyno'r cyngor hwn. Dylai'r wybodaeth a ddarperir gydymffurfio â gofynion diogelu data (y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)). | Er enghraifft, os bydd 5 aelod staff yn treulio 2 awr yn darparu cyngor arbenigol, 10 fydd cyfanswm nifer yr oriau ddylai gael eu cofnodi. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | - Micro (0-9 o weithwyr), Bach (10-49 o weithwyr), Canolig (50-249 o weithwyr). | | | |
| NTW14 | Cyfeiriwch at y diffiniad o ardal leol a nodwyd ar gyfer NTW1. Dylid cyfrifo hwn ar ffurf y gwariant cronnus gyda chyflenwyr sydd wedi'u lleoli yn yr ardal leol. Mae ffigur lluosydd lleol ar gyfer y Diwydiant Adeiladu ac ardal CBS Caerffili wedi'i ddarparu yn y TOMs Cenedlaethol. Dylid teilwra'r ffigur hwn yn ôl y fro a'r diwydiant ar gyfer y prosiect. Mae methodolegau eraill yn cynnwys methodoleg LM3 – dylai lluosydd lleol gael ei gyfrif o hyd ar gyfer yr ardal ddaearyddol berthnasol a'i seilio ar gadwyn gyflenwi'r prosiect. | Darparwch ddadansoddiad mewn punnoedd i'w wario gyda sefydliadau yn eich cadwyn gyflenwi leol yn y contract hwn. Nodwch enw pob cyflenwr cymwys, gan gynnwys categori/diwydiant y nwyddau/gwasanaethau y byddwch yn eu prynu oddi wrth bob un ohonynt, ynghyd â hanner cyntaf eu cod post. | Darparwch ddadansoddiad o bunnoedd a wariwyd gyda sefydliadau yn eich cadwyn gyflenwi leol yn y contract hwn. Nodwch enw pob cyflenwr cymwys, gan gynnwys categori/diwydiant y nwyddau/gwasanaethau y prynwyd gan bob un ohonynt, ynghyd â thri digid cyntaf eu cod post. | Cyfanswm y £ a wariwyd gyda'r gadwyn gyflenwi o fewn ardal leol ddiffiniedig y prosiect |
| NTW14a | Cyfeiriwch at yr is-fröydd penodedig a nodwyd ar gyfer y contract yn rhestr NTW14a. Dylid cyfrifo hwn ar ffurf y gwariant cronnus gyda chyflenwyr sydd wedi'u lleoli yn yr ardal leol. Mae ffigur lluosydd lleol ar gyfer y Diwydiant Adeiladu ac ardal CBS Caerffili wedi'i ddarparu yn y TOMs Cenedlaethol. Dylid teilwra'r ffigur hwn yn ôl y fro a'r diwydiant ar gyfer y prosiect. Mae methodolegau eraill yn cynnwys methodoleg LM3 – dylai lluosydd lleol gael ei gyfrif o hyd ar gyfer yr ardal ddaearyddol berthnasol a'i seilio ar gadwyn gyflenwi'r prosiect. | Darparwch ddadansoddiad mewn punnoedd i'w wario gyda sefydliadau yn eich cadwyn gyflenwi yn yr is-fröydd penodedig yn y contract hwn. Nodwch enw pob cyflenwr cymwys, gan gynnwys categori/diwydiant y nwyddau/gwasanaethau y byddwch yn eu prynu oddi wrth bob un ohonynt, ynghyd â hanner cyntaf eu cod post. | Darparwch ddadansoddiad o bunnoedd a wariwyd gyda sefydliadau yn eich cadwyn gyflenwi leol yn yr is-fröydd penodedig (RHESTR NTW14a) yn y contract hwn. Nodwch enw pob cyflenwr cymwys, gan gynnwys categori/diwydiant y nwyddau/gwasanaethau y prynwyd gan bob un ohonynt, ynghyd â thri digid cyntaf eu cod post. | Cyfanswm y £ a wariwyd gyda'r gadwyn gyflenwi o fewn ardal leol ddiffiniedig y prosiect |
| NTW15 | Cyfeiriwch at y diffiniad o ardal leol a nodwyd ar gyfer NTW1. Dylid cyfrifo hwn ar ffurf y gwariant cronnus gyda chyflenwyr BMBaCh sydd wedi'u lleoli yn yr ardal leol. Mae ffigur lluosydd lleol ar gyfer y Diwydiant Adeiladu ac ardal CBS Caerffili wedi'i ddarparu yn y TOMs Cenedlaethol. Dylid teilwra'r ffigur hwn yn ôl y fro a'r diwydiant ar gyfer y prosiect. Mae methodolegau eraill yn cynnwys methodoleg LM3 – dylai lluosydd lleol gael ei gyfrif o hyd ar gyfer yr ardal ddaearyddol berthnasol a'i seilio ar gadwyn gyflenwi'r prosiect. Fel yn achos NTW13, heblaw mai dim ond cyflenwyr BMBaCh ddylai gael eu cynnwys. Nodwch y diffiniad o BMBaCh (0-250 o weithwyr) - Micro (0-9 o weithwyr), Bach (10-49 o weithwyr), Canolig (50-249 o weithwyr). | Darparwch ddadansoddiad mewn punnoedd i'w wario gyda sefydliadau yn eich cadwyn gyflenwi yn yr ardal leol benodedig yn y contract hwn. Nodwch enw pob cyflenwr cymwys, gan gynnwys categori (BMBaCh)/diwydiant y nwyddau/gwasanaethau y byddwch yn eu prynu oddi wrth bob un ohonynt, ynghyd â hanner cyntaf eu cod post. | Darparwch ddadansoddiad o bunnoedd a wariwyd gyda sefydliadau yn eich cadwyn gyflenwi leol. Nodwch enw pob cyflenwr cymwys, gan amlygu a yw'n fusnes micro, bach neu ganolig, a chynhwyswch gategori/diwydiant y nwyddau/gwasanaethau y prynwyd gan bob un ohonynt, ynghyd â thri digid cyntaf eu cod post. | Cyfanswm y £ a wariwyd gyda BMBaCh (0-249 o weithwyr) yn y gadwyn gyflenwi o fewn ardal leol ddiffiniedig y prosiect. |
| NTW16 | Yn unol â disgrifiad y Mesur. Gall telerau talu o'r fath liniaru pwysau, yn enwedig ar BMBaCh a sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau cymdeithas sifil yn y gadwn gyflenwi, a helpu i fynd i'r afael â phroblemau caethwasiaeth fodern. | Nodwch eich amodau talu yn y contract a'ch ymrwymiadau o ran canran yr anfonebau a delir o fewn 30 niwrnod. | Nodwch gyfanswm nifer yr anfonebau a delir yn y contract a nifer yr anfonebau a delir o fewn 30 niwrnod. Darparwch dystiolaeth o delerau talu sydd wedi'u gweithredu. | (Nifer yr anfonebau a dalwyd o fewn 30 niwrnod / Nifer yr anfonebau a dalwyd ar y contract) * 100 i ddod i ganran |
| CCT31b | Dylid cyfrifo hwn ar ffurf y gwariant cronnus gyda chyflenwyr sydd wedi'u lleoli yn yr ardal ranbarthol, ac eithrio CBS Caerffili. Ni ddylid ei gyfrifo ddwywaith gyda NT14, NT18a ac NT19 a Mesurau gwariant perthnasol eraill. | Darparwch ddadansoddiad mewn punnoedd i'w wario gyda sefydliadau yn eich cadwyn gyflenwi yn yr ardal ranbarthol benodedig yn y contract hwn. Nodwch enw pob cyflenwr cymwys, gan gynnwys categori/diwydiant y nwyddau/gwasanaethau y byddwch yn eu prynu oddi wrth bob un ohonynt, ynghyd â thri digid cyntaf eu cod post. | Darparwch ddadansoddiad o bunnoedd a wariwyd gyda sefydliadau yn eich cadwyn gyflenwi ranbarthol, ac eithrio CBS Caerffili, yn y contract hwn. Nodwch enw pob cyflenwr cymwys, gan gynnwys categori/diwydiant y nwyddau/gwasanaethau y prynwyd gan bob un ohonynt, ynghyd â thri digid cyntaf eu cod post. | Cyfanswm y £ a wariwyd gyda'r gadwyn gyflenwi o fewn ardal leol ddiffiniedig y prosiect |
| CCT34 | Cyfle i gyflenwyr lleol, yn enwedig BMBaCh a mentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol er mwyn deall potensial darparu'u gwasanaethu, nwyddau neu waith at y datblygiad trwy gydol ei gylchred oes, o'r gwaith adeiladu i'w reoli a'i feddiannu. Mae angen i ddarparwyr sicrhau bod y digwyddiad wedi'i hysbysebu'n gywir a bod cyfleoedd penodol wedi'u hamlygu. Lle y bo'n bosibl, dylai darparwyr hefyd wahodd darpar gyflenwyr a allai elwa, yn eu barn nhw. Dylai cyngor ar sut i dendro'n llwyddiannus fod ar gael. Cynhwyswch gost cynnal y digwyddiadau, gan gynnwys llogi lle, stondinau ac amser staff (nodwch amser staff am 16.07 £ fesul awr staff). Cynhwyswch nifer y digwyddiadau a manylion pob un ohonynt yn y Disgrifiad. Dolenni defnyddiol: | Darparwch ddadansoddiad o gostau disgwyliedig ar gyfer digwyddiadau Cwrdd â'r Prynwr a gynhelir ar gyfer y contract hwn. Rhowch fanylion eich digwyddiad(au) Cwrdd â'r Prynwr sydd ar ddod, e.e. lle, amser a nifer disgwyliedig y mynychwyr. Hefyd, darparwch enwau'r sefydliadau yn y gadwyn gyflenwi a fydd yn mynychu. Dylai'r wybodaeth a ddarperir gydymffurfio â gofynion diogelu data (y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)). | Darparwch ddadansoddiad o gostau digwyddiadau Cwrdd â'r Prynwr a gynhaliwyd ar gyfer y contract hwn. Rhowch fanylion pob digwyddiad Cwrdd â'r Prynwr, e.e. lle, amser a nifer y mynychwyr. Hefyd, darparwch enwau'r sefydliadau yn y gadwyn gyflenwi a fynychodd. Dylai'r wybodaeth a ddarperir gydymffurfio â gofynion diogelu data (y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)). | Costau a gafwyd (£) -costau cynnal y digwyddiadau, gan gynnwys llogi lle, stondinau ac amser staff (gwerth hwn fydd 16.07 £ fesul awr staff) |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | https://www.cips.org/en-GB/supply-management/opinion/2014/november/how-to-revitalise-your-meet-the-buyer-events/ | | | |
| NTW17 | Yr amser staff arbenigol (e.e. cyngor ariannol / cyngor cyfreithiol / cyngor ar AD / Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch) sydd wedi'i neilltuo i gefnogi sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau'r gymdeithas sifil neu fusnesau micro, bach a chanolig (BMBaCh). Dylech gynnwys dim ond y gwirfoddoli y mae staff wedi'i ddarparu yn ystod oriau gwaith neu wrth wneud goramser â thâl, neu a gyflwynwyd o ganlyniad uniongyrchol i weithgaredd a drefnwyd gan y sefydliad ac y cytunodd y gweithwyr iddo. Gweler canllaw'r pecyn cymorth am enghreifftiau wedi'u cyfrifo ar gyfer priodoli. Nodwch y diffiniad o BMBaCh (0-250 o weithwyr) - Micro (0-9 o weithwyr), Bach (10-49 o weithwyr), Canolig (50-249 o weithwyr). | Crynhowch eich strategaeth ar gyfer darparu cyngor arbenigol i gefnogi sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau'r gymdeithas sifil/BMBaCh i fabwysiadu atebion yr economi gylchol. Darparwch enwau sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau'r gymdeithas sifil/BMBaCh y byddwch yn eu cefnogi neu amrywiaeth o opsiynau. Disgrifiwch nifer yr oriau staff i'w treulio yn gyfan gwbl ac ar gyfer pob sefydliad trydydd sector a chymdeithas sifil/BMBaCh. Nodwch y math o gyngor arbenigol a ddarperir, gan gynnwys y math o gymhwyster/rôl y person sy'n darparu'r cyngor hwn. | Darparwch ddadansoddiad o'r oriau staff a dreuliwyd yn darparu cyngor arbenigol i gefnogi sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau'r gymdeithas sifil/BMBaCh. Darparwch enwau sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau'r gymdeithas sifil/BMBaCh yr ydych wedi'u cefnogi. Nodwch nifer yr oriau staff arbenigol a dreuliwyd gyda phob sefydliad trydydd sector a chymdeithas sifil/BMBaCh, y math o gyngor arbenigol a ddarparwyd, ynghyd â chymhwyster/rôl y person sy'n darparu'r cyngor hwn. Dylai'r wybodaeth a ddarperir gydymffurfio â gofynion diogelu data (y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)). | Er enghraifft, os bydd 5 aelod staff yn treulio 2 awr yn darparu cyngor arbenigol, 10 fydd cyfanswm nifer yr oriau ddylai gael eu cofnodi. |
| NTW18 | Gwariant ar (neu werth cyfatebol) nwyddau a gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau trwy bartneriaethau lleol i roi atebion yr economi gylchol ar waith (e.e. defnyddio hen waddodion coffi i dirlunio neu addasu offer technolegol hen at ddibenion gwahanol mewn sefydliadau trydydd sector neu sefydliadau'r gymdeithas sifil yn lleol, addasu hen ddodrefn, gwisgoedd neu debyg at ddibenion gwahanol gan sefydliadau trydydd sector neu sefydliadau'r gymdeithas sifil yn lleol, ac ati). | Darparwch restr o nwyddau a gwasanaethau y gofynnir amdanynt trwy bartneriaethau lleol at ddiben economi gylchol ac, ar gyfer pob un ohonynt, rhowch fanylion y gwariant neu amcan o'r gwerth cyfatebol (h.y. os yw'n pro bono). Darparwch dystiolaeth o'r agwedd ar y nwyddau a'r gwasanaethau a ddefnyddir o safbwynt yr economi gylchol. | Darparwch restr o sefydliadau y llunioch bartneriaeth â nhw ac, ar gyfer pob un ohonynt, rhowch ddadansoddiad o'r nwyddau a gwasanaethau y gofynnwyd amdanynt trwy bartneriaethau lleol at ddiben economi gylchol. Ar gyfer pob categori o eitemau, naill ai rhowch fanylion y gwariant neu amcan o'r gwerth cyfatebol (h.y. os yw'n pro bono). Darparwch dystiolaeth o'r agwedd ar y nwyddau a'r gwasanaethau a ddefnyddiwyd o safbwynt yr economi gylchol. | Gwerth y nwyddau a'r gwasanaethau y bwriadwyd gofyn amdanynt trwy'r bartneriaeth leol at ddiben economi gylchol ac, ar gyfer pob un ohonynt, manylion y gwariant neu amcan o'r gwerth cyfatebol (lle y bo'n pro bono) |
| NTW19 | Mae gwastraff anodd ei ailgylchu'n cynnwys yr holl ddeunyddiau hynny o bob categori gwastraff sydd â chyfraddau ailgylchu isel, oherwydd diffyg lle neu oherwydd ei bod hi'n anodd eu hailgylchu. Mae hyn yn cynnwys e.e. eitemau plastig (gwair, poteli), tecstilau (carpedi, matresi, dodrefn) neu fatris. Am enghreifftiau pellach o wastraff anodd ei ailgylchu sy'n deillio o'r cartref, gweler y cyhoeddiad hwn gan: https://www.wrap.org.uk/sites/files/wrap/Difficult%20to%20recycle%20products.pdf. Am raglenni perthnasol, gweler Terracycle (https://www.terracycle.com/en-GB/zero_waste_boxes; https://www.terracycle.com/en-GB/about-terracycle/pre_consumer_programs neu gyfwerth). | Cyfrifwch amcan o'r tunelli metrig o wastraff na fyddent yn cael eu hailgylchu ond y'u cyfeirir at raglen ailgylchu benodol o ganlyniad i'ch rhaglen neu'ch partneriaeth. Darparwch wybodaeth am natur y gwastraff y disgwylir ei ailgylchu i roi tystiolaeth o natur yr anawsterau ailgylchu. | Cofnodwch gyfanswm y gwastraff anodd ei ailgylchu yn y contract sydd wedi'i gyfeirio at raglen ailgylchu bwrpasol. Darparwch fanylion unrhyw sefydliadau partner yn y contract ar gyfer y rhaglen. Darparwch wybodaeth am natur y gwastraff a ailgylchwyd i roi tystiolaeth o natur yr anawsterau ailgylchu. | Tunelli metrig o wastraff na fyddent wedi'u hailgylchu trwy ailgylchu safonol, ond y'u cyfeiriwyd at raglen ailgylchu benodol |
| CCT54 | Mae buddion sy'n deillio o raglen amnewid deunydd pecynnu plastig a byddent naill ai'n cynnwys atebion sy'n defnyddio dewisiadau yn lle deunydd pecynnu plastig, y dangoswyd eu bod yn fwy cynaliadwy (h.y. mae eu hôl troed carbon yn is ac nid ydynt yn arwain at broblemau llygredd cyfochrog) dros eu cylchred oes, neu gynlluniau o fath y "dyn llaeth", lle y caiff nwyddau eu danfon mewn deunydd pecynnu amldro yn hytrach nag untro (ar hyn o bryd, mae disgwyl i ddarparwyr gwahanol lansio opsiynau yn rhai o farchnadoedd y DU yn 2020). | Tunelli metrig o ddeunydd pecynnu plastig fydd yn cael eu hamnewid yn y rhaglen, a disgrifiad o'r dadansoddiad cynaliadwyedd sy'n cymharu'r opsiynau gwreiddiol â dewisiadau eraill. Yn achos "cynlluniau dyn llaeth", disgrifiad o'r cynllun a'i effaith fwriadedig. | Adroddiad ar y rhaglen gyda disgrifiad o'r dadansoddiad cynaliadwyedd sy'n cymharu'r opsiynau gwreiddiol â dewisiadau eraill. Yn achos "cynlluniau dyn llaeth", disgrifiad o'r cynllun a'i effaith fwriadedig. | Y gostyngiad yn y defnydd o ddeunydd pecynnu plastig mewn cilos |
| NTW20 | - | Disgrifiwch y mentrau a'u perthnasedd i'r Mesur. Dylid darparu dadansoddiad mewn punnoedd (gan gynnwys nifer yr oriau staff gwerth £14.63 yr awr neu £87.48 os yw'n amser arbenigol). Darparwch fanylion unrhyw sefydliadau y byddwch yn gweithio gyda nhw a nodwch a fyddan nhw'n rhannu'r gost a nodoch gyda chi, a sut. | Darparwch adroddiad ar y prosiect sy'n dangos tystiolaeth o'r gweithgareddau a wnaed yn ystod y cyfnod adrodd, eu heffaith, amrywiaeth y gwasanaethau arbenigol a ddarparwyd, a disgrifiad o sefydliadau partner, os o gwbl. Dylid darparu dadansoddiad o'r punnoedd a fuddsoddwyd fesul y math o fuddsoddiad – e.e. arian, amser gwirfoddol staff (sy'n werth £14.63 yr awr), amser staff yn rhoi cyngor | £ a fuddsoddwyd – gan gynnwys amser staff (£14.63 yr awr yw gwerth gwirfoddoli, £87.48 yr awr yw gwerth amser arbenigol) a deunyddiau, cyfarpar neu adnoddau eraill |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | arbenigol (sy'n werth £87.48), cyfarpar neu werth cyfatebol asedau eraill. | |
| NTW21 | Gallai'r rhain ddeillio e.e. o raglen fwriadol sy'n anelu at newid prosesau neu o waith datgarboneiddio. Nid yw'r categori hwn yn cynnwys arbedion yn gysylltiedig â chludiant sy'n deillio o arbed milltiroedd gyrru (e.e. beicio i'r gwaith neu fentrau rhannu car i weithwyr - NTW42) neu o gerbydau allyriadau isel - NTW43. Rhaid mynegi arbedion allyriadau CO2 sydd wedi'u hamcangyfrif neu'u cofnodi, yn erbyn gwaelodlin sy'n cynrychioli senario rhesymol o'r sefyllfa cyn neu heb roi'r mesur hwn ar waith. Rhaid darparu gwybodaeth sy'n dangos sut mae'r gwaelodlin wedi'i ddatblygu. Disgwylir y bydd yr arbedion hyn yn deillio o raglen fwriadol sy'n anelu at newid prosesau busnes neu waith i ddatgarboneiddio asedau. Dylai gosodiadau sy'n cymryd rhan yn System Masnachu Allyriadau yr Undeb Ewropeaidd a thrydan y grid gael eu cofnodi a'u prisio ar wahân yn unol Chanllawiau Atodol BEiS i Lyfr Gwyrdd EM 2017 (https://www.gov.uk/government/publications/valuation-of-energy-use-and-greenhouse-gas-emissions-for-appraisal). | Disgrifiwch y rhaglenni neu'r mentrau y byddwch yn eu rhoi ar waith i gyflawni'r arbedion allyriadau CO2 a nodwyd yn y contract, gan gynnwys amserlenni. Gallai'r rhain ddeillio o waith datgarboneiddio (heblaw am gerbydau allyriadau isel a milltiroedd gyrru sy'n cael eu harbed trwy raglenni cludiant cynaliadwy y gellir eu mesur rywle arall). Nodwch a rhowch dystiolaeth o'r gwaelodlin presennol a ddefnyddir i fesur arbedion/gostyngiadau. | Dylid darparu tystiolaeth o ostyngiadau carbon trwy broses annibynnol, gwiriadwy (e.e. Tystysgrif Planet Mark neu gyfwerth). Mae disgwyl i adroddiadau wedi'u sicrhau a'u harchwilio'n annibynnol gael eu darparu. Nodwch a darparwch dystiolaeth o'r gwaelodlin presennol a ddefnyddiwyd i fesur arbedion/gostyngiadau. | Mesurwch ostyngiadau mewn tunelli metrig CO2e yn erbyn gwaelodlin, y mae'n rhaid ei ddarparu, gyda thystiolaeth ohono |
| NTW22 | Dyma fydd eich polisi, eich strategaeth a/neu eich cynllun gweithredu presennol i gyflawni carbon sero-net erbyn 2030, darparu tystiolaeth o hynny a'i fonitro. Os nad ydych wedi cyhoeddi'r cyfryw, ond rydych yn ymrwymo i wneud cyn diwedd 2020, darparwch ddatganiad sy'n cynnwys cwmpas a dyddiad cyhoeddi disgwyliedig. | Ar lefel gorfforaethol. Dyma fydd eich polisi, eich strategaeth a/neu eich cynllun gweithredu presennol i gyflawni carbon sero-net erbyn 2030, darparu tystiolaeth o hynny a'i fonitro. Os nad ydych wedi cyhoeddi'r cyfryw, ond rydych yn ymrwymo i wneud cyn diwedd 2020, darparwch ddatganiad sy'n cynnwys cwmpas a dyddiad cyhoeddi disgwyliedig. | Darparwch gopi o'ch polisi, eich strategaeth a'ch cynllun gyda cherrig milltir penodol i gyflawni carbon sero-net erbyn 2030, darparu tystiolaeth o hynny a'i fonitro. | Darparwch ddogfennau perthnasol |
| NTW23 | Cyfraniadau ariannol i wrthbwyso tunelli metrig cyfatebol o garbon, lle na ellir gostwng y carbon o fewn amserlen y contract. Mae'n rhaid darparu esboniad o'r rheswm pam na ellir gostwng allyriadau carbon yn ystod amserlen y contract. | Rhestrwch y cyfraniadau at wrthbwyso carbon a wnaed i'ch cronfa eich hun, gan ddarparu dadansoddiad o'r gwahanol fathau o wrthbwyso a, lle y bo'n berthnasol, esboniad o'r rheswm pam na ellir gostwng y carbon hynny o fewn amserlen y contract. Darparwch wybodaeth am y gyfradd drosi a ddefnyddir (pris y CO2e a gymhwysir fesul tunnell fetrig). Mae'n rhaid darparu esboniad o'r rheswm pam na ellir gostwng allyriadau carbon yn ystod amserlen y contract. | Rhestrwch y cyfraniadau at wrthbwyso carbon a wnaed yn y contract i'ch cronfa gwrthbwyso carbon eich hun, gan ddarparu dadansoddiad o'r gwahanol fathau o wrthbwyso a, lle y bo'n berthnasol, esboniad o'r rheswm pam na ellir gostwng y carbon hynny o fewn amserlen y contract. | Dylid cyfrifo cyfraniadau ar sail tunelli metrig y CO2e a'u lluosi â gwerth y carbon fesul tunnell fetrig a fabwysiadwyd yn y gronfa. Mae arbedion CO2e yn cyfeirio at arbedion allyriadau cyfwerth â CO2 |
| NTW24 | Gweler Planet Mark (https://theplanetmark.com/certification/), yr Ymddiriedolaeth Carbon (Tystysgrif Carbon Niwtral, Safon Carbon - https://www.carbontrust.com/client-services/certification/assurance-certification/) neu gyfwerth. | Rhestrwch y tystysgrifau a gyflawnwyd neu sydd i'w cyflawni ar gyfer y flwyddyn adrodd. | Darparwch dystysgrifau a gyflawnwyd a dogfennau sy'n dangos sut y cyflawnwyd y rhain. | Darparwch ddogfennau perthnasol neu enwch y dystysgrif y bwriadwch ei chyflawni ar gyfer y flwyddyn bresennol. |
| NTW25 | Ymhlith pethau eraill, gall hwn gynnwys ffocws ar gynaliadwyedd a thegwch y gadwyn gyflenwi, masnach deg neu ddefnyddio B Corps. Canran y contractau o fewn y gadwyn gyflenwi fyd-eang sy'n cynnwys gofynion i sicrhau bod cadwyni cyflenwi'n rhydd rhag caethwasiaeth ac i annog adrodd effeithiol a thryloyw. Ystyr byd-eang yn y cyd-destun hwn yw'r gadwyn gyflenwi ryngwladol, nid Cymru a'r DU. Defnyddiwch NTW63 i gofnodi ar gyfer cadwyn gyflenwi leol neu ranbarthol Cymru neu'r DU. Am ragor o wybodaeth, gweler: http://www.antislaverycommissioner.co.uk/priorities/priority-4-private-sector-engagement/ neu https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-09/code-of-practice-guide-to-tackling-modern-slavery-and-human-rights-abuses.pdf<br><br>I gael cipolwg i reolwyr, gweler e.e. Cyfrifon Banc Prosiectau a sut y gellir eu defnyddio yn y gadwyn gyflenwi (https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-09/canllawiau- | Nodwch gyfanswm nifer y contractau caffael yn y contract hwn a chyfanswm nifer y rheiny a fydd yn cynnwys ymrwymiadau i arferion cyflogaeth moesegol yn y gadwyn gyflenwi fyd-eang. Os yw'n bosibl ac yn berthnasol, darparwch gopi o'ch polisi caffael moesegol a chopi o'ch datganiad ar gaethwasiaeth fodern. Mae'r mesur hwn yn canolbwyntio'n benodol ar gontractau caffael gyda chyrhaeddiad byd-eang ac, felly, rhyngwladol. | Nodwch gyfanswm nifer y contractau caffael yn y contract hwn a chyfanswm nifer y rheiny sy'n cynnwys ymrwymiadau i arferion cyflogaeth moesegol yn y gadwyn gyflenwi fyd-eang. Os yw'n berthnasol, darparwch gopi o'ch polisi caffael moesegol a chopi o'ch datganiad ar gaethwasiaeth fodern. Mae'r mesur hwn yn canolbwyntio'n benodol ar gontractau caffael gyda chyrhaeddiad byd-eang ac, felly, rhyngwladol. | - |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ar-ddefnyddio-polisi-cyfrifon-banc-prosiectau-llywodraeth-cymru.pdf). | | | |
| NTW26 | Dyma fentrau sy'n cael eu rhedeg gan eich sefydliad i amlygu, rheoli, olrhain a lleihau risgiau caethwasiaeth fodern yn y gadwyn gyflenwi fyd-eang ar gyfer y contract. Gallai'r rhain gynnwys e.e. mapio'r gadwyn gyflenwi, hyfforddiant staff, prosesau gwirio trylwyr ar gyfer recriwtio a gweithwyr asiantaeth (e.e. gwiriadau hawl i weithio, gwiriadau cyfrif banc, gwiriadau cyfeiriad), rhaglenni ymgysylltu â'r gadwyn gyflenwi i gyfleu disgwyliadau a gofynion yn gysylltiedig â chaethwasiaeth fodern ac i gynnig cefnogaeth i ddatrys heriau, ac ati. Ystyr byd-eang yn y cyd-destun hwn yw'r gadwyn gyflenwi ryngwladol, nid Cymru a'r DU. Defnyddiwch NTW64 i gofnodi gwariant gyda mentrau cadwyn gyflenwi leol neu ranbarthol Cymru neu'r DU. I gael rhagor o wybodaeth ac arweiniad am ymgysylltu a'r broses, trowch at "Cod Ymarfer - Canllaw ar drechu Caethwasiaeth Fodern a Thorri Hawliau Dynol" Llywodraeth Cymru. Gallwch fynd at y canllaw trwy'r ddolen ganlynol ac mae'n rhoi canllawiau ymarferol ac enghreifftiau o'r ffordd orau o ymrafael â'r mater hwn: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-09/cod-ymarfer-canllaw-ar-drechu-caethwasiaeth-fodern-a-thorri-hawliau-dynol.pdf | Nodwch a disgrifiwch fentrau sydd wedi'u cynllunio ac, ar gyfer pob menter, rhowch ddadansoddiad o gostau disgwyliedig. Hefyd, darparwch wybodaeth am sut bydd y mentrau sydd wedi'u cynllunio'n mynd i amlygu, rheoli, olrhain a lleihau risgiau caethwasiaeth fodern yn y gadwyn gyflenwi fyd-eang, a sut y caiff monitro a dilyniant eu rheoli. Os ydych chi'n bwriadu llunio partneriaeth â sefydliadau eraill ar gyfer unrhyw rai o'r mentrau penodedig, darparwch wybodaeth am y partneriaid hynny. | Disgrifiwch fentrau perthnasol a gyflwynwyd ac, ar gyfer pob menter, rhowch ddadansoddiad o'r costau. Darparwch fanylion nifer y sefydliadau yn y gadwyn gyflenwi fyd-eang ar gyfer y contract cysylltiedig. Hefyd, darparwch wybodaeth am sut gwnaeth y mentrau a gyflawnwyd leihau risgiau caethwasiaeth fodern yn y gadwyn gyflenwi fyd-eang, a sut y cafodd monitro a dilyniant eu rheoli. | £ a fuddsoddwyd |
| NTW27 | - | Disgrifiwch y mentrau a'u perthnasedd i'r Mesur. Dylid darparu dadansoddiad mewn punnoedd (gan gynnwys nifer yr oriau staff gwerth £14.63 yr awr neu £87.48 os yw'n amser arbenigol). Darparwch fanylion unrhyw sefydliadau y byddwch yn gweithio gyda nhw a nodwch a fyddan nhw'n rhannu'r gost a nodoch gyda chi, a sut | Darparwch adroddiad ar y prosiect sy'n dangos tystiolaeth o'r gweithgareddau a wnaed yn ystod y cyfnod adrodd, eu heffaith, amrywiaeth y gwasanaethau arbenigol a ddarparwyd, a disgrifiad o sefydliadau partner, os o gwbl. Dylid darparu dadansoddiad o'r punnoedd a fuddsoddwyd fesul y math o fuddsoddiad – e.e. arian, amser gwirfoddol staff (sy'n werth £14.63 yr awr), amser staff yn rhoi cyngor arbenigol (sy'n werth £87.48), cyfarpar neu werth cyfatebol asedau eraill. | £ a fuddsoddwyd – gan gynnwys amser staff (£14.63 yr awr yw gwerth gwirfoddoli, £87.48 yr awr yw gwerth amser arbenigol) a deunyddiau, cyfarpar neu adnoddau eraill |
| NTW28 | Gall hwn e.e. gynnwys cymryd rhan mewn mentrau amlranddeiliad ac eiriolaeth ynghylch cadwraeth amgylcheddol neu reoli ecosystemau yn gynaliadwy. Cymryd rhan ac adnoddau i'w buddsoddi, gan gynnwys amser a gwirfoddoli, mewn mentrau perthnasol a all gael eu priodoli i'r contract. Dim ond oriau gwirfoddoli a dreulir yn ystod oriau gwaith neu oramser â thâl all gael eu cyfrif. | Cymryd rhan ac adnoddau a fuddsoddwyd, gan gynnwys amser a gwirfoddoli, y gellir eu priodoli i'r contract. Dim ond oriau gwirfoddoli a dreulir yn ystod oriau gwaith neu oramser â thâl all gael eu cyfrif. | Ar gyfer pob menter neu brosiect a gefnogwyd, darparwch ddadansoddiad o'r amser gwirfoddoli ac amser staff a fuddsoddwyd, ochr yn ochr â buddsoddiad arall. Dim ond oriau gwirfoddoli a dreuliwyd yn ystod oriau gwaith neu oramser â thâl all gael eu cyfrif. | Cyfanswm gwerth mewn £ gan gynnwys amser, arian a chyfraniadau mewn da. Gall gwerth yr amser gwirfoddol a dreuliwyd mewn mentrau ymgysylltu amlranddeiliad a rheoli ecosystem yn gynaliadwy fod yn £ £14.63 yr awr. |
| NTW31 | % y plastig a ddefnyddir yn y contract sy'n cael ei ailgylchu. | % y plastig a ddefnyddir yn y contract y disgwylir ei ailgylchu. | Darparwch ddadansoddiad o gyfanswm y plastig a ddefnyddiwyd yn y contract a'r cyfanswm ohono sydd wedi'i ailgylchu. | (Plastigau a ddefnyddir yn y contract sy'n cael eu hailgylchu (tunelli metrig) / cyfanswm y plastig a ddefnyddir yn y contract (tunelli metrig)) * 100 i gael canran |
| NTW32 | % y mewnbynnau deunyddiau Mwy nag Ailgylchu a ddefnyddir yn y contract. Mae hyn yn cynnwys pren a chynnwys wedi'i ailwneuthuro, ei drwsio neu'i ailgylchu. Am ragor o wybodaeth, gweler: https://llyw.cymru/mwy-nag-ailgylchu | % darged y mewnbynnau deunyddiau a ddefnyddir yn y contract y disgwylir iddynt fod yn 'Fwy nag Ailgylchu'. Mae hyn yn cynnwys pren a chynnwys wedi'i ailwneuthuro, ei drwsio neu'i ailgylchu. Darparwch dystiolaeth ar gyfer y deunyddiau arfaethedig i'w defnyddio a pham y gellir | Darparwch ddadansoddiad o gyfanswm y mewnbynnau deunyddiau a ddefnyddiwyd yn y contract a chyfanswm y mewnbynnau deunyddiau y gellir ystyried eu bod yn 'Fwy nag Ailgylchu' ar sail canllawiau Llywodraeth Cymru ar yr economi gylchol. Darparwch dystiolaeth ar gyfer yr holl | (Mewnbynnau deunyddiau Mwy nag Ailgylchu a ddefnyddiwyd yn y contract (tunelli metrig) / cyfanswm y mewnbynnau deunyddiau a ddefnyddiwyd yn y contract (tunelli |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ystyried eu bod yn 'Fwy nag Ailgylchu'. Am ragor o wybodaeth, gweler: https://llyw.cymru/mwy-nag-ailgylchu | fewnbynnau deunyddiau a ddefnyddiwyd a pham y gellir ystyried bod dogfennau penodol yn "Fwy nag Ailgylchu". | metrig)) * 100 i gael canran |
| NTW57 | Mae lleoliadau gwaith yn arwydd o brofiad gwaith dros dro mewn cwmni, er enghraifft gweithio ar dasgau lefel iau gyda'r nod o ennill profiad o'r diwydiant a chipolwg iddo, neu swydd raddedig â sgiliau mwy penodol. Dim ond lleoliadau gwaith i fyfyrwyr, am 1 i 6 wythnos (heb dâl, yn nodweddiadol), ddylai gael eu cofrestru yma. Dylid cofrestru nifer cronnus yr wythnosau (o 1 i 6 ar gyfer pob lleoliad gwaith i fyfyriwr). I gael arweiniad, gweler: https://www.gov.uk/guidance/national-minimum-wage-work-experience-and-internships. Ni ddylid cyfrifo'r mesur hwn ddwywaith gyda Mesurau lleoliadau gwaith eraill. | Crynhowch eich strategaeth ar gyfer darparu'ch nifer targed o wythnosau o leoliadau gwaith i fyfyrwyr neu gyrsiau cyn cyflogaeth ar y contract hwn. Nodwch y math o leoliadau gwaith i fyfyrwyr a/neu gyrsiau cyn cyflogaeth a ddarperir, gan gynnwys pa fath o brofiad o'r diwydiant y byddant yn arwain ato a sut. Oherwydd y byddwch yn cydweithredu ag ysgolion, colegau neu brifysgolion, nodwch pa rai a sut y byddwch yn mynd ati. | Nodwch nifer y bobl mewn lleoliadau gwaith i fyfyrwyr neu gyrsiau cyn cyflogaeth ar y contract hwn ac, ar gyfer pob person, nodwch: y math o leoliad gwaith neu gwrs cyn cyflogaeth a'i hyd mewn wythnosau. Disgrifiwch y profiad a gafwyd o'r diwydiant a darparwch fanylion yr ysgol, coleg neu brifysgol y llunioch bartneriaeth â nhw. Dylai'r wybodaeth a ddarperir gydymffurfio â gofynion diogelu data (y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)). | Cyfanswm nifer wythnosau lleoliadau i fyfyrwyr ar y contract (lleoliadau i fyfyrwyr am 1 i 6 wythnos yn unig) |
| NTW58 | Mae lleoliadau gwaith yn arwydd o brofiad gwaith dros dro mewn cwmni, er enghraifft gweithio ar dasgau lefel iau gyda'r nod o ennill profiad o'r diwydiant a chipolwg iddo, neu swydd raddedig â sgiliau mwy penodol. Dylid cofrestru nifer cronnus wythnosau'r lleoliadau gwaith (gan gofio bod rhaid i bob lleoliad fod yn hwy na 6 wythnos). Dim ond lleoliadau sy'n ennill o leiaf yr isafswm cyflog neu'r cyflog byw cenedlaethol, yn unol â rheoliadau'r llywodraeth, ddylai gael eu cynnwys. I gael arweiniad, gweler: https://www.gov.uk/guidance/national-minimum-wage-work-experience-and-internships ac yma https://www.gov.uk/national-minimum-wage-rates. | Crynhowch eich strategaeth ar gyfer darparu'ch nifer targed o swyddi ac wythnosau o leoliadau gwaith â thâl ar y contract hwn. Nodwch y math o leoliadau gwaith (ynghyd â'r math o dâl, h.y. yr isafswm cyflog, y cyflog byw cenedlaethol neu gyflog uwch) a ddarperir, gan gynnwys pa fath o brofiad o'r diwydiant y byddant yn arwain ato a sut. Os byddwch yn cydweithredu ag unrhyw sefydliad, ysgol, coleg neu brifysgol, nodwch pa rai a sut y byddwch yn mynd ati. | Nodwch nifer y bobl mewn lleoliadau gwaith ac, ar gyfer pob person, nodwch: y math o leoliad gwaith (gan gynnwys y math o dâl, h.y. yr isafswm cyflog, y cyflog byw cenedlaethol neu gyflog uwch) a'i hyd mewn wythnosau. Disgrifiwch y profiad a gafwyd o'r diwydiant a darparwch fanylion unrhyw sefydliad, ysgol, coleg neu brifysgol y llunioch bartneriaeth â nhw. Dylai'r wybodaeth a ddarperir gydymffurfio â gofynion diogelu data (y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)). | Cyfanswm nifer yr wythnosau ar y contract (sylwch fod yn rhaid i bob lleoliad bara o leiaf 6 wythnos). |
| NTW61 | Y Cyflog Byw Gwirioneddol i'r DU fel y'u gosodwyd gan y Living Wage Foundation yw £9.30 yr awr (https://www.livingwage.org.uk/). Cymhwyswch y gyfradd briodol ar y trothwy perthnasol, yn dibynnu ar y contract. | Nodwch i ba ganran o'r gweithlu ar y contract rydych chi'n cymhwyso cyfradd y Cyflog Byw Gwirioneddol. | Darparwch dystiolaeth o gyfanswm nifer y contractau cyflogaeth a nifer y contractau cyflogaeth lle telir o leiaf y Cyflog Byw Gwirioneddol i staff yn ôl y gyfradd leol berthnasol. Am ragor o wybodaeth, gweler: https://www.livingwage.org.uk/. Dylid adrodd yr holl ddata yn unol â gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). | Cymhwyswch gyfraddau perthnasol yn dibynnu ar leoliad y contract. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| NTW63 | Ymhlith pethau eraill, gall hwn gynnwys ffocws ar gynaliadwyedd a thegwch y gadwyn gyflenwi, masnach deg neu ddefnyddio B Corps. Canran y contractau o fewn y gadwyn gyflenwi leol sy’n cynnwys gofynion i sicrhau bod cadwyni cyflenwi’n rhydd rhag caethwasiaeth ac i annog adrodd effeithiol a thryloyw. Mae lleol yn y cyd-destun hwn yn cyfeirio at gadwyn gyflenwi Cymru a’r DU. Defnyddiwch NTW25 i gofnodi ar gyfer y gadwyn gyflenwi ryngwladol. Am ragor o wybodaeth, gweler: http://www.antislaverycommissioner.co.uk/priorities/priority-4-private-sector-engagement/ neu https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-09/cod-ymarfer-canllaw-ar-drechu-caethwasiaeth-fodern-a-thorri-hawliau-dynol.pdf<br><br>I gael cipolwg i reolwyr, gweler e.e. Cyfrifon Banc Prosiectau a sut y gellir eu defnyddio yn y gadwyn gyflenwi (https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-09/canllawiau-ar-ddefnyddio-polisi-cyfrifon-banc-prosiectau-llywodraeth-cymru.pdf). | Nodwch gyfanswm nifer y contractau caffael yn y contract hwn a chyfanswm nifer y rheiny a fydd yn cynnwys ymrwymiadau i arferion cyflogaeth moesegol yn y gadwyn gyflenwi leol. Os yw’n bosibl ac yn berthnasol, darparwch gopi o’ch polisi caffael moesegol a chopi o’ch datganiad ar gaethwasiaeth fodern. | Nodwch gyfanswm nifer y contractau caffael yn y contract hwn a chyfanswm nifer y rheiny sy’n cynnwys ymrwymiadau i arferion cyflogaeth moesegol yn y gadwyn gyflenwi leol. Os yw’n berthnasol, darparwch gopi o’ch polisi caffael moesegol a chopi o’ch datganiad ar gaethwasiaeth fodern. | - |
| NTW64 | Dyma fentrau sy’n cael eu rhedeg gan eich sefydliad i amlygu, rheoli, olrhain a lleihau risgiau caethwasiaeth fodern yn y gadwyn gyflenwi leol ar gyfer y contract. Gallai’r rhain gynnwys e.e. mapio’r gadwyn gyflenwi, hyfforddiant staff, prosesau gwirio trylwyr ar gyfer recriwtio a gweithwyr asiantaeth (e.e. gwiriadau hawl i weithio, gwiriadau cyfrif banc, gwiriadau cyfeiriad), rhaglenni ymgysylltu â’r gadwyn gyflenwi i gyfleu disgwyliadau a gofynion yn gysylltiedig â chaethwasiaeth fodern ac i gynnig cefnogaeth i ddatrys heriau, ac ati. Ystyr lleol yn y cyd-destun hwn yw cadwyn gyflenwi Cymru a’r DU. Defnyddiwch NTW26 i gofnodi gwariant gyda mentrau’r gadwyn gyflenwi fyd-eang. I gael rhagor o wybodaeth ac arweiniad am ymgysylltu â’r broses, trowch at "Cod Ymarfer - Canllaw ar drechu Caethwasiaeth Fodern a Thorri Hawliau Dynol" Llywodraeth Cymru. Gallwch fynd at y canllaw trwy’r ddolen ganlynol ac mae’n rhoi canllawiau ymarferol ac enghreifftiau o’r ffordd orau o ymrafael â’r mater hwn: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-09/cod-ymarfer-canllaw-ar-drechu-caethwasiaeth-fodern-a-thorri-hawliau-dynol.pdf | Mae’r rhain yn fentrau rydych chi’n bwriadu’u cynnal i amlygu a rheoli risgiau caethwasiaeth fodern yn y gadwyn gyflenwi leol ar gyfer y contract. Nodwch a disgrifiwch fentrau sydd wedi’u cynllunio ac, ar gyfer pob menter, rhowch ddadansoddiad o gostau disgwyliedig. Hefyd, darparwch wybodaeth am sut bydd y mentrau sydd wedi’u cynllunio’n mynd i leihau risgiau caethwasiaeth fodern yn y gadwyn gyflenwi leol, a sut y caiff monitro a dilyniant eu rheoli. | Disgrifiwch fentrau perthnasol a gyflwynwyd ac, ar gyfer pob menter, rhowch ddadansoddiad o’r costau. Darparwch fanylion nifer y sefydliadau yn y gadwyn gyflenwi leol ar gyfer y contract cysylltiedig. Hefyd, darparwch wybodaeth am sut gwnaeth y mentrau a gyflawnwyd leihau risgiau caethwasiaeth fodern yn y gadwyn gyflenwi leol, a sut y cafodd monitro a dilyniant eu rheoli. | £ a fuddsoddwyd |
| NTW65 | - | Disgrifiwch y mentrau a’u perthnasedd i’r Mesur. Dylid darparu dadansoddiad o bunnoedd (gan gynnwys nifer oriau staff gwerth £14.63 yr awr neu £87.48 os yw’n amser arbenigol). Darparwch fanylion unrhyw sefydliadau y byddwch yn gweithio gyda nhw a nodwch a fyddan nhw’n rhannu’r gost a nodoch gyda chi, a sut. | Darparwch adroddiad ar y prosiect sy’n dangos tystiolaeth o’r gweithgareddau a wnaed yn ystod y cyfnod adrodd, eu heffaith, amrywiaeth y gwasanaethau arbenigol a ddarparwyd, a disgrifiad o sefydliadau partner, os o gwbl. Dylid darparu dadansoddiad o’r punnoedd a fuddsoddwyd fesul y math o fuddsoddiad – e.e. arian, amser gwirfoddol staff (sy’n werth £14.63 yr awr), amser staff yn rhoi cyngor arbenigol (sy’n werth £87.48), cyfarpar neu werth cyfatebol asedau eraill. | £ a fuddsoddwyd – gan gynnwys amser staff (£14.63 yr awr yw gwerth gwirfoddoli, £87.48 yr awr yw gwerth amser arbenigol) a deunyddiau, cyfarpar neu adnoddau eraill |
| NTW66 | Gallai rhoi fan i sefydliad cymunedol, neu’r defnydd o ofod swyddfa ac ati, fod yn enghraifft o hyn. Dylid cyfrifo’r gwerth cyfatebol mewn £ a dylid disgrifio rhagdybiaethau a manylion am y cyfrifo yn glir. Gall fod angen ystyried priodoli pan fydd adnoddau’n cael eu rhoi, ond nid yn gyfan gwbl o ganlyniad i ymrwymiadau a wnaed yn gysylltiedig â’r contract. Mae angen cysylltiad clir â’r gweithgarwch cytundebol. Gweler canllaw’r pecyn cymorth am enghreifftiau wedi’u cyfrifo ar gyfer priodoli. | Darparwch restr o sefydliadau’r trydydd sector a sefydliadau cymdeithas sifil rydych chi eisoes wedi’u hamlygu, neu amrywiaeth o opsiynau. Darparwch ddadansoddiad o werth cyfatebol adnoddau a/neu gyfarpar i’w rhoi i sefydliadau’r trydydd sector a sefydliadau cymdeithas sifil, gan gynnwys enwau’r sefydliadau. | Darparwch ddadansoddiad o werth cyfatebol adnoddau a/neu gyfarpar a roddwyd i bob sefydliad trydydd sector a sefydliad cymdeithas sifil, gan gynnwys tystiolaeth o’r rhoddion ac enwau’r sefydliadau trydydd sector a chymdeithas sifil a gefnogwyd. | Gwerth cyfatebol y rhodd mewn £ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| NTW67 | Yn ôl yr International Labour Organisation (2001), y diffiniad o wirfoddoli yw 'gwaith anorfodol heb dâl; hynny yw, amser y mae unigolion yn ei roi heb dâl i weithgareddau sy'n cael eu cyflawni naill ai trwy sefydliad neu'n uniongyrchol i bobl eraill y tu hwnt i'r aelwyd'. Fan hyn, dim ond oriau gwirfoddol staff ddylai gael eu cofnodi pan fydd amser wedi'i neilltuo i staff ei dreulio ar wirfoddoli ffurfiol (nid i deulu a ffrindiau). Dylech gynnwys dim ond y gwirfoddoli y mae staff wedi'i ddarparu yn ystod oriau gwaith neu wrth wneud goramser â thâl, neu a gyflwynwyd o ganlyniad uniongyrchol i weithgaredd a drefnwyd gan y sefydliad ac y cytunodd y gweithwyr iddo. Gweler canllaw'r pecyn cymorth am enghreifftiau wedi'u cyfrifo ar gyfer priodoli. | Nodwch y rhestr o sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau cymdeithas sifil a gefnogir a disgrifiwch y gweithgareddau gwirfoddoli a gyflwynir, a'u dibenion arfaethedig. Darparwch ddadansoddiad o'r oriau staff gwirfoddol a gyflwynir i sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau cymdeithas sifil. Er enghraifft, os bydd 10 aelod staff yn gwirfoddoli 3 awr yr un, 30 fydd cyfanswm nifer yr oriau y dylech eu cofnodi. | Nodwch enw'r sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau cymdeithas sifil a gefnogwyd, y gweithgareddau gwirfoddoli a gyflwynwyd, a'u dibenion arfaethedig. Darparwch ddadansoddiad o'r oriau staff gwirfoddol a gyflwynwyd i sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau cymdeithas sifil. Dylai'r wybodaeth a ddarperir gydymffurfio â gofynion diogelu data (y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)). | Nifer oriau staff sy'n cael eu treulio'n gwirfoddoli gyda sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau cymdeithas sifil. Er enghraifft, os bydd 10 aelod staff yn gwirfoddoli 3 awr yr un, 30 fydd cyfanswm nifer yr oriau y dylech eu cofnodi. |
| NTW68 | Dyma'r SV (SVA) ychwanegol o wariant ar gyflenwyr i'r contract sy'n fentrau gwirfoddol, cymunedol neu gymdeithasol. E.e. gallai hyn gynnwys dewis cwmni arlwyo sy'n cyflogi troseddwyr sy'n adsefydlu, neu wasanaeth dodrefn sy'n ailgylchu dodrefn a roddwyd iddo, neu ymgynghoriaeth recriwtio sy'n fenter gymdeithasol, ac ati. Mae gan Social Enterprise UK offeryn defnyddiol i adnabod mentrau cymdeithasol sy'n aelodau ohono, a hynny ar sail lleoliad https://www.socialenterprise.org.uk/members-map. Gallwch gyfeirio at y tîm datblygu economaidd lleol yn y Cyngor i adnabod partneriaid posibl. Gall lluosydd enillion cymdeithasol ar fuddsoddiad (SORI) gael ei ddefnyddio yn lle'r gwerth rhagosodedig hwn pan fydd ar gael ac wedi'i sicrhau, trwy ddefnyddio colofn y lluosydd ychwanegol yn y Gyfrifiannell Mesur. Gall cyfanswm yr SVA o ddewis sefydliad trydydd sector a chymdeithas sifil lleol yn y gadwyn gyflenwi gael ei gyfrifo trwy adio lluosyddion priodol NTW68 ac NTW14, pan na fydd NTW14 neu NTW15 wedi'u cynnwys yn uniongyrchol yn y dadansoddiad. | Darparwch ddadansoddiad o'r punnoedd amcangyfrifedig i'w gwario gyda sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau cymdeithas sifil yn eich cadwyn gyflenwi ar y contract hwn, gan gynnwys enw'r sefydliadau (neu amrywiaeth o enwau posibl) a'r mathau o nwyddau/gwasanaethau y byddwch yn eu prynu oddi wrth bob un ohonynt. | Darparwch ddadansoddiad o bunnoedd a wariwyd gyda sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau cymdeithas sifil yn eich cadwyn gyflenwi ar y contract hwn, gan gynnwys enw'r sefydliadau a'r mathau o nwyddau/gwasanaethau a brynwyd gan bob un ohonynt. | £ a wariwyd gyda sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau cymdeithas sifil yn y gadwyn gyflenwi. Sylwch nad oes angen iddynt fod yn sefydliadau lleol. Gweler y Sail Resymegol i gael mwy o wybodaeth am gyfrifo ddwywaith. |
| NTW69 | Dyma amser staff arbenigol (e.e. cyngor ariannol / cyngor cyfreithiol / cyngor ar AD / Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch) sydd wedi'i neilltuo i gefnogi sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau cymdeithas sifil. Dylech gynnwys dim ond y gwirfoddoli y mae staff wedi'i ddarparu yn ystod oriau gwaith neu wrth wneud goramser â thâl, neu a gyflwynwyd o ganlyniad uniongyrchol i weithgaredd a drefnwyd gan y sefydliad ac y cytunodd y gweithwyr iddo. Gweler canllaw'r pecyn cymorth am enghreifftiau wedi'u cyfrifo ar gyfer priodoli. | Crynhowch eich strategaeth ar gyfer darparu cyngor arbenigol i sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau cymdeithas sifil. Darparwch enwau'r sefydliadau y byddwch yn eu cefnogi, neu amrywiaeth o opsiynau. Disgrifiwch nifer yr oriau staff sydd i'w treulio yn gyfan gwbl ac ar gyfer pob sefydliad. Nodwch y math o gyngor arbenigol a ddarperir, gan gynnwys y math o gymhwyster/rôl y sawl sy'n cyflwyno'r cyngor hwn. | Darparwch ddadansoddiad o'r oriau staff a dreuliwyd yn darparu cyngor arbenigol i sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau cymdeithas sifil. Darparwch fanylion y sefydliadau a gefnogoch. Nodwch nifer yr oriau staff a dreuliwyd ar gyfer pob sefydliad trydydd sector a sefydliad cymdeithas sifil, y math o gyngor arbenigol a roddwyd, ynghyd â chymhwyster/rôl y sawl sy'n cyflwyno'r cyngor hwn. Dylai'r wybodaeth a ddarperir gydymffurfio â gofynion diogelu data (y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)). | Er enghraifft, os bydd 5 aelod staff yn treulio 2 awr yn darparu cyngor arbenigol, 10 fydd cyfanswm nifer yr oriau ddylai gael eu cofnodi. |
| NTW70 | Mae'r mesur hwn yn cynnwys hyfforddiant a roddwyd i'ch staff eich hun, i'r gadwyn gyflenwi Haen 1 ac i isgontractwyr, ar amrywiaeth yn benodol. Cofnodwch nifer oriau cronnus y mynychwyr a nodwch y ddau ar wahân fel disgrifiad. Dim ond hyfforddiant a ddarparwyd yn rhad ac am ddim i sefydliadau'r gadwyn gyflenwi ddylai gael ei gynnwys. | Disgrifiwch eich strategaeth ar gyfer cyflwyno hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth i'ch staff eich hun ac i'r gadwyn gyflenwi ar y contract hwn. Darparwch gynllun gwaith, gan gynnwys nifer yr oriau staff a dreulir a nifer y bobl a fydd yn gysylltiedig â'r hyfforddiant, o'ch sefydliad eich hun ac o sefydliadau yn y gadwyn gyflenwi. Esboniwch amcanion y sesiwn/sesiynau hyfforddiant a sut caiff cynnydd tuag at yr amcanion hyn eu monitro dros gyfnod y contract. | Darparwch ddadansoddiad o oriau staff a dreuliwyd yn darparu hyfforddiant cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i'w staff eu hunain ac i sefydliadau'r gadwyn gyflenwi ar y contract hwn, gan gynnwys nifer y bobl a oedd yn gysylltiedig â'r hyfforddiant. Disgrifiwch amcanion y sesiwn/sesiynau hyfforddiant a sut caiff cynnydd tuag at yr amcanion hyn ei fonitro dros gyfnod y contract. Dylai'r wybodaeth a ddarperir gydymffurfio â gofynion diogelu data (y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)). Os ydych chi'n llunio partneriaeth ag unrhyw sefydliad arbenigol, darparwch fanylion. | Dylid cyfrifo nifer yr oriau sy'n cael eu hadrodd trwy luosi hyd y sesiwn â nifer y buddiolwyr. Er enghraifft, byddai sesiwn 2 awr gydag 8 o bobl ddi-waith yn bresennol yn 16 awr, dim ots ai 1 neu 5 o bobl fydd yn cyflwyno'r sesiwn. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| NTW71 | % cyfunol o bobl BAME (Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol) a gyflogwyd ar y contract yn gyfwerth ag amser llawn blynyddol yn uniongyrchol a thrwy'r gadwyn gyflenwi. Mae'r Mesur hwn yn annog cyflogi mwy o bobl BAME. | Crynhowch % eich cyfran gyfunol ddisgwyliedig o bobl BAME (Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol) a gyflogwyd ar y contract yn gyfwerth ag amser llawn blynyddol yn uniongyrchol a thrwy'r gadwyn gyflenwi. | Darparwch wybodaeth am % cyfran y bobl BAME (Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol) sy'n gweithio ar y contract (yn gyfwerth ag amser llawn). Rhaid i ystadegau cyflogaeth swyddogol y cwmni neu ddogfennau eraill ategu'r data a ddarperir. Os bydd y data'n cynnwys data'r gadwyn gyflenwi, rhaid i gyflenwyr ddarparu'r dogfennau perthnasol. Rhaid addasu'r data ar gyfer cyflogaeth gyfwerth ag amser llawn i ganiatáu am lunio cymhariaeth rhwng gwahanol fathau o gontractau. | Nifer y bobl BAME sydd wedi'u cyflogi ar y contract wedi'i rannu â chyfanswm nifer y bobl sydd wedi'u cyflogi ar y contract - (%). Darparwch gyfrifiad ar sail nifer gwreiddiol y contractau a'i drosi ar sail y nifer cyfwerth ag amser llawn er mwyn cymharu â dangosyddion cyflogaeth eraill. Er nad oes diffiniad penodedig o gyflogaeth amser llawn, mae cyfwerth ag 1.0 amser llawn yn cyfateb i gyflogi un person ar sail amser llawn am gyfnod o 12 mis. Er enghraifft, byddai cyflogi dau berson ar sail amser llawn am chwe mis yn cyfateb i gyfwerth ag 1.0 amser llawn. Ein diffiniad o gyflogaeth amser llawn fan hyn yw gweithio o leiaf 35 awr yr wythnos. Cynhwyswch gyflogaeth uniongyrchol a swyddi sydd wedi'u datgloi trwy'r gadwyn gyflenwi o ganlyniad i'ch gofynion caffael. Peidiwch â chyfrif cyflogaeth uniongyrchol a chyflogaeth yn y gadwyn gyflenwi ar gyfer yr un ardaloedd ddwywaith mewn mesurau perthnasol eraill. |
| NTW73 | Gellid cynnal hwn mewn partneriaeth â sefydliad trydydd sector a sefydliad y gymdeithas sifil neu fel rhan o raglen y cwmni. Dylid cofnodi'r gwerth ariannol cronnus ar gyfer trefnu a chynnal mentrau o'r fath. Dylid cofnodi cost gyfatebol cyfarpar ac oriau gwirfoddoli ar wahân yn y categorïau priodol. Dylai gwerth amser gwirfoddoli staff fod yn £14.63 (prisiau 2019) yr awr, yn unol â chanllawiau 2017 yr ONS. Dylid darparu disgrifiad manwl o'r mentrau perthnasol, ynghyd â datganiad dull a chynllun gwaith. Pan ddarperir cymorth fel rhan o raglen ehangach cwmni (e.e. menter genedlaethol neu gydweithrediad ag elusen), dylid cyfrif am briodoli (gweler canllaw'r pecyn cymorth am enghreifftiau wedi'u cyfrifo ar gyfer priodoli). | Darparwch ddadansoddiad o bunnoedd i'w buddsoddi mewn mentrau sy'n anelu at leihau troseddu (gan gynnwys nifer yr oriau staff sy'n werth £14.63 yr awr – h.y. y gwerth cyffredinol ar gyfer gwirfoddoli (NTW67)). Disgrifiwch pa fath o drosedd(au) yr ydych yn anelu at ei leihau, gan gynnwys sut ac ymhle rydych chi'n anelu at wneud hynny. Rhaid darparu manylion unrhyw sefydliadau y byddwch yn llunio partneriaeth â nhw i leihau troseddu. | Darparwch ddadansoddiad o bunnoedd a fuddsoddwyd mewn mentrau sy'n anelu at leihau troseddu (gan gynnwys nifer yr oriau staff sy'n werth £14.63 yr awr – h.y. y gwerth cyffredinol ar gyfer gwirfoddoli (NTW67)). Disgrifiwch pa fath o drosedd yr aneloch at ei leihau, gan gynnwys sut ac ymhle rydych chi'n anelu at wneud hynny. Darparwch fanylion am unrhyw sefydliadau y llunioch bartneriaeth â nhw. Lle ychwanegwyd lluosydd ychwanegol at y Mesur o ganlyniad i asesiadau effaith penodol ar gyfer y mentrau yr adroddir amdanynt (e.e. Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad), dylid darparu'r adroddiadau ar gyfer pob asesiad. Mae disgwyl i adroddiadau wedi'u sicrhau a'u harchwilio'n annibynnol gael eu darparu. Dylai'r wybodaeth a ddarperir gydymffurfio â gofynion diogelu data (y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)). | Cyfrifwch werth cyfatebol mewn punnoedd yr adnoddau a fuddsoddwyd – gan gynnwys arian, cyfarpar, defnyddio adnoddau (e.e. lle) ac amser staff (dylai gwerth amser staff fod yn £14.63 yr awr) |
| NTW74 | Gellid cynnal hwn mewn partneriaeth â sefydliad trydydd sector a sefydliad y gymdeithas sifil neu fel rhan o raglen y cwmni. Dylid cofnodi'r gwerth ariannol cronnus ar gyfer trefnu a chynnal mentrau o'r fath. Dylid cofnodi cost gyfatebol cyfarpar ac oriau gwirfoddoli ar wahân yn y categorïau priodol. Dylai gwerth amser gwirfoddoli staff fod yn £14.63 (prisiau 2019) yr awr, yn unol â chanllawiau 2017 yr ONS. Dylid darparu disgrifiad manwl o'r mentrau perthnasol, ynghyd â datganiad dull a chynllun gwaith. Pan ddarperir cymorth fel rhan o raglen ehangach cwmni (e.e. menter genedlaethol neu gydweithrediad ag elusen), dylid cyfrif am briodoli (gweler canllaw'r pecyn cymorth am enghreifftiau wedi'u cyfrifo ar gyfer priodoli). | Darparwch ddadansoddiad o bunnoedd i'w buddsoddi mewn mentrau sy'n anelu at gynorthwyo pobl hŷn, anabl ac agored i niwed i adeiladu rhwydweithiau cymunedol cryfach (gan gynnwys nifer yr oriau staff sy'n werth £14.63 yr awr – h.y. y gwerth cyffredinol ar gyfer gwirfoddoli (NTW67)). Disgrifiwch y grŵp/grwpiau y byddwch yn eu cefnogi a'r gweithgareddau a gyflwynwch, gan gynnwys sut ac ymhle y byddwch chi'n gwneud hynny. Rhaid darparu manylion unrhyw sefydliadau y byddwch yn llunio partneriaeth â nhw. | Darparwch ddadansoddiad o bunnoedd (gan gynnwys nifer yr oriau staff sy'n werth £14.63 yr awr – h.y. y gwerth cyffredinol ar gyfer gwirfoddoli (NTW67)) a fuddsoddwyd mewn mentrau'n anelu at gynorthwyo pobl hŷn, anabl ac agored i niwed i adeiladu rhwydweithiau cymunedol cryfach. Disgrifiwch y grwpiau a gefnogoch a'r gweithgareddau a gyflwynoch, gan gynnwys sut ac ymhle y gwnaethoch hynny. Darparwch fanylion unrhyw sefydliadau y llunioch bartneriaeth â nhw. Lle ychwanegwyd lluosydd ychwanegol at y Mesur o ganlyniad i asesiadau effaith penodol ar gyfer y mentrau yr adroddir amdanynt (e.e. Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad), dylid darparu'r adroddiadau ar gyfer pob asesiad. Mae disgwyl i adroddiadau wedi'u sicrhau a'u harchwilio'n annibynnol gael eu darparu. Dylai'r wybodaeth | Cyfrifwch werth cyfatebol mewn punnoedd yr adnoddau a fuddsoddwyd – gan gynnwys arian, cyfarpar, defnyddio adnoddau (e.e. lle) ac amser staff (dylai gwerth amser staff fod yn £14.63 yr awr) |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | a ddarperir gydymffurfio â gofynion diogelu data (y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)). | |
| NTW75 | Gellid cynnal hwn mewn partneriaeth â sefydliad trydydd sector a sefydliad y gymdeithas sifil neu fel rhan o raglen y cwmni. Dylid cofnodi'r gwerth ariannol cronnus ar gyfer trefnu a chynnal mentrau o'r fath. Dylid cofnodi cost gyfatebol cyfarpar ac oriau gwirfoddoli ar wahân yn y categorïau priodol. Dylai gwerth amser gwirfoddoli staff fod yn £14.63 (prisiau 2019) yr awr, yn unol â chanllawiau 2017 yr ONS. Dylid darparu disgrifiad manwl o'r mentrau perthnasol, ynghyd â datganiad dull a chynllun gwaith. Pan ddarperir cymorth fel rhan o raglen ehangach cwmni (e.e. menter genedlaethol neu gydweithrediad ag elusen), dylid cyfrif am briodoli (gweler canllaw'r pecyn cymorth am enghreifftiau wedi'u cyfrifo ar gyfer priodoli). Mae difreintiedig yn y cyd-destun hwn yn cyfeirio at blant sy'n dioddef mathau o amrywiol o amddifadedd ac allgau, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i dlodi economaidd neu dlodi bwyd, allgau cymdeithasol neu addysgol neu wahaniaethu, ac ati. Gall y diffiniad o ddifreintiedig amrywio rhwng cyd-destunau gwahanol. Nod cyffredinol y mesur hwn yw lleihau anghydraddoldebau strwythurol a galluogi a hwyluso'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas i gymryd rhan yn gymdeithasol ac yn economaidd. I gael gwybodaeth am fentrau Llywodraeth Cymru a'u polisi ar weithio gyda phlant difreintiedig a'u cefnogi, yn enwedig yn gysylltiedig ag addysg, gweler y ddolen ganlynol: https://gov.wales/education-of-disadvantaged-children | Darparwch ddadansoddiad o bunnoedd i'w buddsoddi mewn mentrau sy'n anelu at gefnogi pobl ifanc ddifreintiedig a'u teuluoedd (gan gynnwys nifer yr oriau staff sy'n werth £14.63 yr awr - h.y. y gwerth cyffredinol ar gyfer gwirfoddoli (NTW67)). Disgrifiwch y grŵp/grwpiau y byddwch yn eu cefnogi a'r gweithgareddau a gyflwynwch, gan gynnwys sut ac ymhle y byddwch chi'n gwneud hynny. Rhaid darparu manylion unrhyw sefydliadau y byddwch yn llunio partneriaeth â nhw. Mae mentrau enghreifftiol yn cynnwys Gweithredu dros Blant (https://www.actionforchildren.org.uk/) neu Blant yng Nghymru (https://www.childreninwales.org.uk/), ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt. | Darparwch ddadansoddiad o bunnoedd (gan gynnwys nifer yr oriau staff sy'n werth £14.63 yr awr - h.y. y gwerth cyffredinol ar gyfer gwirfoddoli (NTW67)) a fuddsoddwyd mewn mentrau'n anelu at gefnogi pobl ifanc ddifreintiedig a'u teuluoedd. Disgrifiwch y grwpiau a gefnogoch a'r gweithgareddau a gyflwynoch, gan gynnwys sut ac ymhle y gwnaethoch hynny. Darparwch fanylion unrhyw sefydliadau y llunioch bartneriaeth â nhw. Lle ychwanegwyd lluosydd ychwanegol at y Mesur o ganlyniad i asesiadau effaith penodol ar gyfer y mentrau yr adroddir amdanynt (e.e. Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad), dylid darparu'r adroddiadau ar gyfer pob asesiad. Mae disgwyl i adroddiadau wedi'u sicrhau a'u harchwilio'n annibynnol gael eu darparu. Dylai'r wybodaeth a ddarperir gydymffurfio â gofynion diogelu data (y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)). Mae mentrau enghreifftiol yn cynnwys Gweithredu dros Blant (https://www.actionforchildren.org.uk/) neu Blant yng Nghymru (https://www.childreninwales.org.uk/) ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt. | Cyfrifwch werth cyfatebol mewn punnoedd yr adnoddau a fuddsoddwyd – gan gynnwys arian, cyfarpar, defnyddio adnoddau (e.e. lle) ac amser staff (dylai gwerth amser staff fod yn £14.63 yr awr) |
| NTW76 | Gallai hwn fod yn rhodd ariannol neu gyfraniadau mewn da sydd o werth cyfatebol - e.e. rhoi fan i sefydliad cymunedol – i brosiect cymunedol penodol. Dylid cyfrifo'r gwerth cyfatebol mewn £ a dylid disgrifio rhagdybiaethau a manylion am y cyfrifo yn glir. Gall fod angen ystyried priodoli pan fydd adnoddau'n cael eu rhoi, ond nid yn gyfan gwbl o ganlyniad i ymrwymiadau a wnaed yn gysylltiedig â'r contract. Mae angen cysylltiad clir â'r gweithgarwch cytundebol. Gweler canllaw'r pecyn cymorth am enghreifftiau wedi'u cyfrifo ar gyfer priodoli. | Darparwch ddadansoddiad o werth cyfatebol mewn punnoedd roddion a/neu gyfraniadau mewn da a roddir i brosiectau cymunedol lleol. Disgrifiwch y prosiectau cymunedol lleol y byddwch yn eu cefnogi. Darparwch fanylion unrhyw sefydliadau y byddwch yn llunio partneriaeth â nhw. | Darparwch ddadansoddiad o werth cyfatebol mewn punnoedd roddion a/neu gyfraniadau mewn da a roddwyd i brosiectau cymunedol lleol. Disgrifiwch y prosiectau cymunedol lleol a gefnogoch. Darparwch fanylion unrhyw sefydliadau y llunioch bartneriaeth â nhw. Lle ychwanegwyd lluosydd ychwanegol at y Mesur o ganlyniad i asesiadau effaith penodol ar gyfer y mentrau yr adroddir amdanynt (e.e. Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad), dylid darparu'r adroddiadau ar gyfer pob asesiad. Mae disgwyl i adroddiadau wedi'u sicrhau a'u harchwilio'n annibynnol gael eu darparu. Dylai'r wybodaeth a ddarperir gydymffurfio â gofynion diogelu data (y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)). | £ a roddwyd (neu werth cyfatebol mewn £) |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| NTW77 | Cyfeiriwch at y diffiniad o ardal leol a nodwyd ar gyfer NTW1. Yn ôl yr International Labour Organisation (2001), y diffiniad o wirfoddoli yw 'gwaith anorfodol heb dâl; hynny yw, amser y mae unigolion yn ei roi heb dâl i weithgareddau sy'n cael eu cyflawni naill ai trwy sefydliad neu'n uniongyrchol i bobl eraill y tu hwnt i'r aelwyd'. Fan hyn, dim ond oriau gwirfoddol staff ddylai gael eu cofnodi pan fydd amser wedi'i neilltuo i staff ei dreulio ar wirfoddoli ffurfiol (nid i deulu a ffrindiau). Yn achos prosiectau cymunedol lleol, efallai nad sefydliad cymunedol fydd yn derbyn y gwirfoddoli yn y pen draw, ond gall fod yn fenter a sefydlwyd gan y cwmni ei hun ar sail gwybodaeth leol. Rhaid cofnodi amser a fuddsoddwyd mewn trefnu gweithgareddau o'r fath yn y categori hwn yn ogystal ag amser gwirfoddoli'r staff. Dylech gynnwys dim ond y gwirfoddoli y mae staff wedi'i ddarparu yn ystod oriau gwaith neu wrth wneud goramser â thâl, neu a gyflwynwyd o ganlyniad uniongyrchol i weithgaredd a drefnwyd gan y sefydliad ac y cytunodd y gweithwyr iddo (gweler canllaw'r pecyn cymorth am enghreifftiau wedi'u cyfrifo ar gyfer priodoli). | Disgrifiwch y gweithgaredd/gweithgareddau gwirfoddoli a gyflwynir a'r prosiectau cymunedol lleol a gefnogir. Darparwch fanylion unrhyw sefydliadau y byddwch yn llunio partneriaeth â nhw. Darparwch ddadansoddiad o'r oriau staff gwirfoddol a gyflwynir i brosiectau cymunedol lleol. Dim ond oriau gwaith rheolaidd ac oriau goramser all gael eu cyfrif yn oriau gwirfoddoli. Er enghraifft, os bydd 10 aelod staff yn gwirfoddoli 3 awr yr un, 30 fydd cyfanswm nifer yr oriau y dylech eu cofnodi. | Disgrifiwch y gweithgaredd/gweithgareddau gwirfoddoli a gyflwynoch a'r prosiectau cymunedol lleol a gefnogoch. Darparwch fanylion unrhyw sefydliadau y llunioch bartneriaeth â nhw. Darparwch ddadansoddiad o'r oriau staff gwirfoddol a gyflwynwyd i brosiectau cymunedol lleol. Dim ond oriau gwaith rheolaidd ac oriau goramser all gael eu cyfrif yn oriau gwirfoddoli. Dylai'r wybodaeth a ddarperir gydymffurfio â gofynion diogelu data (y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)). | Er enghraifft, os bydd 10 aelod staff yn gwirfoddoli 3 awr yr un, 30 fydd cyfanswm nifer yr oriau y dylech eu cofnodi. |
| NTW78 | Cyfeiriwch at y diffiniad o ardal leol a nodwyd ar gyfer NTW1. Mae Siarter Cymunedol yn ddogfen a luniwyd gan y gymuned sy'n amlygu anghenion a chyfleoedd, ac sy'n cyfeirio busnesau a all helpu â deilliannau penodol. Gellid ei ddarparu trwy ariannu cydlynydd cymunedol lleol neu drydydd parti i hwyluso'r broses. Mae cefnogi cydlynydd cymunedol lleol yn golygu cytuno i fod yn noddwr a chefnogi'r mentrau, e.e. trwy gyfeirio staff gwirfoddol tuag atynt. | Darparwch ddadansoddiad o bunnoedd i'w buddsoddi mewn helpu'r gymuned leol i lunio'i Siarter Cymunedol neu'i Chynllun Rhanddeiliaid ei hun (gan gynnwys nifer yr oriau staff sy'n werth £14.63 yr awr – h.y. y gwerth cyffredinol ar gyfer gwirfoddoli (NTW67)). Disgrifiwch eich strategaeth/cynllun gwaith ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned leol. Darparwch fanylion unrhyw sefydliadau y byddwch yn llunio partneriaeth â nhw. | Darparwch ddadansoddiad o bunnoedd a fuddsoddwyd mewn helpu'r gymuned leol i lunio'i Siarter Cymunedol neu'i Chynllun Rhanddeiliaid ei hun (gan gynnwys nifer yr oriau staff sy'n werth £14.63 yr awr – h.y. y gwerth cyffredinol ar gyfer gwirfoddoli (NTW67)). Darparwch gopi o'r siarter Cymunedol neu'r Cynllun Rhanddeiliaid a manylion unrhyw sefydliadau y llunioch bartneriaeth â nhw. Dylai'r wybodaeth a ddarperir gydymffurfio â gofynion diogelu data (y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)). | Cyfrifwch werth cyfatebol mewn punnoedd yr adnoddau a fuddsoddwyd – gan gynnwys arian, cyfarpar, defnyddio adnoddau (e.e. lle) ac amser staff (dylai gwerth amser staff fod yn £14.63 yr awr) |
| NTW79 | - | Disgrifiwch y mentrau a'u perthnasedd i'r Mesur. Dylid darparu dadansoddiad o bunnoedd (gan gynnwys nifer oriau staff gwerth £14.63 yr awr neu £87.48 os yw'n amser arbenigol). Darparwch fanylion unrhyw sefydliadau y byddwch yn gweithio gyda nhw a nodwch a fyddan nhw'n rhannu'r gost a nodoch gyda chi, a sut. | Darparwch adroddiad ar y prosiect sy'n dangos tystiolaeth o'r gweithgareddau a wnaed yn ystod y cyfnod adrodd, eu heffaith, amrywiaeth y gwasanaethau arbenigol a ddarparwyd, a disgrifiad o sefydliadau partner, os o gwbl. Dylid darparu dadansoddiad o'r punnoedd a fuddsoddwyd fesul y math o fuddsoddiad – e.e. arian, amser gwirfoddol staff (sy'n werth £14.63 yr awr), amser staff yn rhoi cyngor arbenigol (sy'n werth £87.48), cyfarpar neu werth cyfatebol asedau eraill. | £ a fuddsoddwyd – gan gynnwys amser staff (£14.63 yr awr yw gwerth gwirfoddoli, £87.48 yr awr yw gwerth amser arbenigol) a deunyddiau, cyfarpar neu adnoddau eraill |
| NTW80 | Mae hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn rhan o werth cymdeithasol yng Nghymru. Nod y mesur hwn yw ymwneud â hynny. Gellid cynnal hwn mewn partneriaeth â sefydliad trydydd sector a sefydliad y gymdeithas sifil neu fel rhan o raglen y cwmni. Dylid cofnodi'r gwerth ariannol cronnus ar gyfer trefnu a chynnal mentrau o'r fath. Dylid cofnodi cost gyfatebol cyfarpar ac oriau gwirfoddoli ar wahân yn y categorïau priodol. Dylai gwerth amser gwirfoddoli staff fod yn £14.63 (prisiau 2019) yr awr, yn unol â chanllawiau 2017 yr ONS. Dylid darparu disgrifiad manwl o'r mentrau perthnasol, ynghyd â datganiad dull a chynllun gwaith. Pan ddarperir cymorth fel rhan o raglen ehangach cwmni (e.e. menter genedlaethol neu gydweithrediad ag elusen), dylid cyfrif am briodoli (gweler canllaw'r pecyn cymorth am enghreifftiau wedi'u cyfrifo ar gyfer priodoli). | Darparwch ddadansoddiad o bunnoedd i'w buddsoddi mewn mentrau sy'n anelu at gynorthwyo pobl i ddysgu Cymraeg (gan gynnwys nifer yr oriau staff sy'n werth £14.63 yr awr – h.y. y gwerth cyffredinol ar gyfer gwirfoddoli (NTW67)). Disgrifiwch pa fath o weithgareddau rydych chi'n bwriadu'u cefnogi, gan gynnwys sut ac ymhle rydych chi'n anelu at wneud hynny. Rhaid darparu manylion unrhyw sefydliadau y byddwch yn llunio partneriaeth â nhw. | Darparwch ddadansoddiad o bunnoedd a fuddsoddwyd mewn mentrau sy'n anelu at ddysgu Cymraeg (gan gynnwys nifer yr oriau staff sy'n werth £14.63 yr awr – h.y. y gwerth cyffredinol ar gyfer gwirfoddoli (NTW67)). Disgrifiwch pa fath o fentrau a gefnogoch, gan gynnwys sut ac ymhle y gwnaethoch hynny. Darparwch fanylion am unrhyw sefydliadau y llunioch bartneriaeth â nhw. Lle ychwanegwyd lluosydd ychwanegol at y Mesur o ganlyniad i asesiadau effaith penodol ar gyfer y mentrau yr adroddir amdanynt (e.e. Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad), dylid darparu'r adroddiadau ar gyfer pob asesiad. Mae disgwyl i adroddiadau wedi'u sicrhau a'u harchwilio'n annibynnol gael eu darparu. Dylai'r wybodaeth a ddarperir gydymffurfio â gofynion diogelu data (y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)). | Cyfrifwch werth cyfatebol mewn punnoedd yr adnoddau a fuddsoddwyd – gan gynnwys arian, cyfarpar, defnyddio adnoddau (e.e. lle) ac amser staff (dylai gwerth amser staff fod yn £14.63 yr awr) |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| NTW81 | Mae gwella ac ehangu gwybodaeth am ddiwylliant Cymru a'i gwneud hi'n haws i bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau'r celfyddydau, chwaraeon a threftadaeth leol yn rhan o werth cymdeithasol yng Nghymru. Nod y mesur hwn yw ymwneud â hynny. Gellid cynnal hwn mewn partneriaeth â sefydliad trydydd sector a sefydliad y gymdeithas sifil neu fel rhan o raglen y cwmni. Dylid cofnodi'r gwerth ariannol cronnus ar gyfer trefnu a chynnal mentrau o'r fath. Dylid cofnodi cost gyfatebol cyfarpar ac oriau gwirfoddoli ar wahân yn y categorïau priodol. Dylai gwerth amser gwirfoddoli staff fod yn £14.63 (prisiau 2019) yr awr, yn unol â chanllawiau 2017 yr ONS. Dylid darparu disgrifiad manwl o'r mentrau perthnasol, ynghyd â datganiad dull a chynllun gwaith. Pan ddarperir cymorth fel rhan o raglen ehangach cwmni (e.e. menter genedlaethol neu gydweithrediad ag elusen), dylid cyfrif am briodoli (gweler canllaw'r pecyn cymorth am enghreifftiau wedi'u cyfrifo ar gyfer priodoli). | Darparwch ddadansoddiad o bunnoedd i'w buddsoddi mewn mentrau sy'n anelu at gynorthwyo pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau'r celfyddydau, chwaraeon a threftadaeth (gan gynnwys nifer yr oriau staff sy'n werth £14.63 yr awr – h.y. y gwerth cyffredinol ar gyfer gwirfoddoli (NTW67)). Disgrifiwch pa fath o weithgareddau rydych chi'n bwriadu'u cefnogi, gan gynnwys sut ac ymhle rydych chi'n anelu at wneud hynny. Rhaid darparu manylion unrhyw sefydliadau y byddwch yn llunio partneriaeth â nhw. | Darparwch ddadansoddiad o bunnoedd a fuddsoddwyd mewn mentrau sy'n anelu at gael pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau'r celfyddydau, chwaraeon a threftadaeth (gan gynnwys nifer yr oriau staff sy'n werth £14.63 yr awr – h.y. y gwerth cyffredinol ar gyfer gwirfoddoli (NTW67)). Disgrifiwch pa fath o fentrau a gefnogoch, gan gynnwys sut ac ymhle y gwnaethoch hynny. Darparwch fanylion am unrhyw sefydliadau y llunioch bartneriaeth â nhw. Lle ychwanegwyd lluosydd ychwanegol at y Mesur o ganlyniad i asesiadau effaith penodol ar gyfer y mentrau yr adroddir amdanynt (e.e. Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad), dylid darparu'r adroddiadau ar gyfer pob asesiad. Mae disgwyl i adroddiadau wedi'u sicrhau a'u harchwilio'n annibynnol gael eu darparu. Dylai'r wybodaeth a ddarperir gydymffurfio â gofynion diogelu data (y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)). | Cyfrifwch werth cyfatebol mewn punnoedd yr adnoddau a fuddsoddwyd – gan gynnwys arian, cyfarpar, defnyddio adnoddau (e.e. lle) ac amser staff (dylai gwerth amser staff fod yn £14.63 yr awr) |
| NTW82 | Mae buddsoddi mewn amddiffyn bywyd gwyllt, bioamrywiaeth a safleoedd treftadaeth lleol yn rhan o werth cymdeithasol yng Nghymru. Nod y mesur hwn yw ymwneud â hynny. Gellid cynnal hwn mewn partneriaeth â sefydliad trydydd sector a sefydliad y gymdeithas sifil neu fel rhan o raglen y cwmni. Dylid cofnodi'r gwerth ariannol cronnus ar gyfer trefnu a chynnal mentrau o'r fath. Dylid cofnodi cost gyfatebol cyfarpar ac oriau gwirfoddoli ar wahân yn y categorïau priodol. Dylai gwerth amser gwirfoddoli staff fod yn £14.63 (prisiau 2019) yr awr, yn unol â chanllawiau 2017 yr ONS. Dylid darparu disgrifiad manwl o'r mentrau perthnasol, ynghyd â datganiad dull a chynllun gwaith. Pan ddarperir cymorth fel rhan o raglen ehangach cwmni (e.e. menter genedlaethol neu gydweithrediad ag elusen), dylid cyfrif am briodoli (gweler canllaw'r pecyn cymorth am enghreifftiau wedi'u cyfrifo ar gyfer priodoli). | Darparwch ddadansoddiad o bunnoedd i'w buddsoddi mewn mentrau sy'n anelu at amddiffyn bywyd gwyllt a bioamrywiaeth gynhenid, ynghyd â safleoedd treftadaeth lleol (gan gynnwys nifer yr oriau staff sy'n werth £14.63 yr awr – h.y. y gwerth cyffredinol ar gyfer gwirfoddoli (NTW67)). Disgrifiwch pa fath o fentrau rydych chi'n bwriadu'u cefnogi, gan gynnwys sut ac ymhle rydych chi'n anelu at wneud hynny. Rhaid darparu manylion unrhyw sefydliadau y byddwch yn llunio partneriaeth â nhw. | Darparwch ddadansoddiad o bunnoedd a fuddsoddwyd mewn mentrau sy'n anelu at amddiffyn bywyd gwyllt a bioamrywiaeth gynhenid, ynghyd â safleoedd treftadaeth lleol (gan gynnwys nifer yr oriau staff sy'n werth £14.63 yr awr – h.y. y gwerth cyffredinol ar gyfer gwirfoddoli (NTW67)). Disgrifiwch pa fath o fentrau a gefnogoch, gan gynnwys sut ac ymhle y gwnaethoch hynny. Darparwch fanylion am unrhyw sefydliadau y llunioch bartneriaeth â nhw. Lle ychwanegwyd lluosydd ychwanegol at y Mesur o ganlyniad i asesiadau effaith penodol ar gyfer y mentrau yr adroddir amdanynt (e.e. Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad), dylid darparu'r adroddiadau ar gyfer pob asesiad. Mae disgwyl i adroddiadau wedi'u sicrhau a'u harchwilio'n annibynnol gael eu darparu. Dylai'r wybodaeth a ddarperir gydymffurfio â gofynion diogelu data (y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)). | Cyfrifwch werth cyfatebol mewn punnoedd yr adnoddau a fuddsoddwyd – gan gynnwys arian, cyfarpar, defnyddio adnoddau (e.e. lle) ac amser staff (dylai gwerth amser staff fod yn £14.63 yr awr) |
| NTW83 | - | Disgrifiwch y mentrau a'u perthnasedd i'r Mesur. Dylid darparu dadansoddiad o bunnoedd (gan gynnwys nifer oriau staff gwerth £14.63 yr awr neu £87.48 os yw'n amser arbenigol). Darparwch fanylion unrhyw sefydliadau y byddwch yn gweithio gyda nhw a nodwch a fyddan nhw'n rhannu'r gost a nodoch gyda chi, a sut. | Darparwch adroddiad ar y prosiect sy'n dangos tystiolaeth o'r gweithgareddau a wnaed yn ystod y cyfnod adrodd, eu heffaith, amrywiaeth y gwasanaethau arbenigol a ddarparwyd, a disgrifiad o sefydliadau partner, os o gwbl. Dylid darparu dadansoddiad o'r punnoedd a fuddsoddwyd fesul y math o fuddsoddiad – e.e. arian, amser gwirfoddol staff (sy'n werth £14.63 yr awr), amser staff yn rhoi cyngor arbenigol (sy'n werth £87.48), cyfarpar neu werth cyfatebol asedau eraill. | £ a fuddsoddwyd – gan gynnwys amser staff (£14.63 yr awr yw gwerth gwirfoddoli, £87.48 yr awr yw gwerth amser arbenigol) a deunyddiau, cyfarpar neu adnoddau eraill |